Asesu effaith economaidd S4C yng Nghymru a'r DU

Adroddiad i S4C
Gan **Ymchwil Arad**

4 Mawrth 2021

Ymchwil Arad
8 Rhodfa Columbus
Maes Brigantîn
Caerdydd CF10 4SD
029 2044 0552
www.aradresearch.com

Crynodeb

Gwerth S4C i economi'r DU

- Creodd S4C effaith economaidd o **£197.4m ar economi'r DU** yn 2019-20. Roedd hyn yn cynnwys (ffigurau wedi'u talgrynnu):
    - Effaith uniongyrchol o **£96.7m** a gynhyrchwyd drwy wariant S4C ar nwyddau, gwasanaethau a chyflogau (gan gynnwys gweithwyr llawrydd) yn y DU.
    - Effaith anuniongyrchol o **£0.8m** drwy ddylanwad S4C fel tenant angor yng nghanolfan *Yr Egin*, Sir Gaerfyrddin, a fu'n gatalydd ar gyfer gwariant gan y ganolfan a'i hymwelwyr.
    - Effeithiau ysgogedig o **£99.9m** a gynhyrchwyd drwy wariant gan fusnesau yn y DU, wedi'i sbarduno gan yr uchod.
- Adroddodd cwmnïau cynhyrchu fod **cydgynyrchiadau** S4C wedi eu galluogi i **ennill comisiynau** gyda rhwydweithiau eraill, gan gynnwys **darlledwyr a chwmnïau cynhyrchu rhyngwladol**.
    - Adroddodd cwmnïau cynhyrchu fod eu profiad o weithio ar gomisiynau S4C wedi rhoi sylfaen **dda iddynt ennill rhagor o waith yn rhyngwladol**.
- Amlygodd cwmnïau cynhyrchu werth cynyrchiadau S4C o ran eu galluogi i **ddenu rhagor o fuddsoddiad cyfalaf** gan bartneriaid (e.e. ar gyfer gofod stiwdio newydd).

Gwerth S4C i economi Cymru

- Creodd S4C effaith economaidd o **£141.1m ar economi Cymru** yn 2019-20. Roedd hyn yn cynnwys:
    - Effaith uniongyrchol o **£77.6m** a gynhyrchwyd drwy wariant S4C ar nwyddau, gwasanaethau a chyflogau (gan gynnwys gweithwyr llawrydd) yng Nghymru.
    - Effaith anuniongyrchol o **£0.8m** a gynhyrchwyd drwy ddylanwad S4C fel tenant angor yng nghanolfan *Yr Egin*, Sir Gaerfyrddin, a fu'n gatalydd ar gyfer gwariant gan y ganolfan a'i hymwelwyr.
    - Effeithiau ysgogedig o **£62.8m** a gynhyrchwyd drwy wariant a sbardunwyd gan yr uchod yng Nghymru (ffigurau wedi'u talgrynnu).
- Mae S4C yn cael effaith sylweddol ar gwmnïau cynhyrchu ac eraill yng Nghymru.
    - Mae 61% o'i gyflenwyr yn nodi bod S4C yn cael **'effaith gadarnhaol sylweddol' ar eu trosiant** (nododd 89% fod y sianel wedi cael rhywfaint o effaith gadarnhaol).

- Adroddodd y cwmnïau cynhyrchu fod y sefydlogrwydd a ddaw yn sgil gweithio ar gynyrchiadau S4C yn rhoi'r **hyder iddynt fuddsoddi** mewn seilwaith, mewn technoleg ac yn y gweithlu.

- Amlygodd y rhanddeiliaid bwysigrwydd cwmnïau cynhyrchu unigol fel **cyflogwyr arwyddocaol yn eu heconomïau lleol** ledled Cymru, yn enwedig yn ardaloedd gwledig gogledd a gorllewin Cymru.

- Canmolodd y rhanddeiliaid **ymatebolrwydd S4C i anghenion y gynulleidfa** a'r heriau economaidd sy'n wynebu cwmnïau cynhyrchu wrth gomisiynu yn ystod y **pandemig Covid-19.**

Gwerth S4C i'r economi yn Sir Gaerfyrddin

- Yn ystod 2018/19, **adleoliodd S4C ei phencadlys** i ganolfan *Yr Egin* yn **Sir Gaerfyrddin**, gan ddod yn denant angor y ganolfan. Mae hyn wedi arwain at:
  - Rai gweithwyr yn symud i Sir Gaerfyrddin.
  - Rhai cwmnïau cynhyrchu sefydledig yn agor swyddfa yn *Yr Egin* a rhai busnesau newydd yn dod yn denantiaid yn y ganolfan.
  - Gwariant ychwanegol yn yr ardal gan ymwelwyr â'r ganolfan, gan gynnwys cynulleidfaoedd stiwdio rhaglenni S4C.

- Creodd S4C effaith economaidd o **£18.2m ar economi Sir Gaerfyrddin** yn 2019-20. Roedd hyn yn cynnwys:
  - Effaith uniongyrchol o **£14.0m** a gynhyrchwyd drwy wariant S4C ar nwyddau, gwasanaethau a chyflogau (gan gynnwys gweithwyr llawrydd) yn yr ardal
  - Effaith anuniongyrchol o **£0.6m** drwy fod yn denant angor ac yn gatalydd ar gyfer gwariant gan ganolfan *Yr Egin*, ei staff a'i hymwelwyr yn Sir Gaerfyrddin.[1]
  - Effeithiau ysgogedig o **£3.7m** drwy wariant a sbardunwyd gan yr uchod, gan gynnwys gan gyflenwyr S4C yn *Yr Egin* (ffigurau wedi'u talgrynnu).

- Nododd y rhan fwyaf o gyflenwyr S4C sydd ag eiddo busnes parhaol yn Sir Gaerfyrddin fod **adleoli S4C i ganolfan *Yr Egin* wedi cael rhywfaint o effaith gadarnhaol** ar eu trosiant, eu proffidioldeb, a'u costau, ar gydweithredu ac ar ennill gwaith newydd.

[1] Nid yw'r ffigur hwn yn cynnwys gwariant gan *Yr Egin* ar nwyddau, gwasanaethau a chyflogau mewn rhannau eraill o Gymru, y tu allan i Sir Gaerfyrddin.

Elw ar fuddsoddiad o S4C

- **Am bob £1 o incwm** a dderbyniodd S4C yn 2019-20, creodd y darlledwr yr effaith economaidd a ganlyn:
  - **£2.03** yn **Economi'r DU**
  - **£1.45** yn **Economi Cymru**
  - **£0.19** yn economi **Sir Gaerfyrddin.**

Effaith S4C ar gyflogaeth

- Roedd S4C yn cyflogi **101 aelod o staff (CALl)** ar gyfartaledd yn ystod y flwyddyn ariannol 2019-20, gyda chyfanswm o **134 o unigolion** yn wedi'u cyflogi yn ystod y flwyddyn.
  - Roedd 32 o'r rhain yn byw yn Sir Gaerfyrddin - tua chwarter (24%) yr holl bobl a gyflogwyd.
  - Mae hyn yn cynnwys pum aelod o staff a ddewisodd adleoli i Sir Gaerfyrddin yn dilyn adleoli pencadlys S4C, a deg a ddechreuodd weithio gydag S4C yn ystod neu ar ôl i'r sianel adleoli i ganolfan *Yr Egin*.
- Yn ychwanegol at hynny, cyflogwyd **56 o staff llawrydd** gan S4C yn 2019-20.
- Creodd gwariant S4C ragor o alw a swyddi yr amcangyfrifir eu bod yn cefnogi **2,334 o weithwyr a gweithwyr llawrydd y DU** drwy ei gadwyn gyflenwi gan gynnwys amcangyfrif o:
  - **774** o swyddi mewn cwmnïau sy'n cyflenwi'r sianel yn uniongyrchol (cwmnïau cynhyrchu yn bennaf).
  - **970** o swyddi yn y gadwyn gyflenwi.
  - **590** o swyddi llawrydd.
- Mae'r effeithiau cyflogaeth uniongyrchol ac ysgogedig hyn yn golygu yr amcangyfrifir bod S4C yn cynhyrchu cyfleoedd **cyflogaeth** ar gyfer cyfanswm o:
  - **2,435** o weithwyr a gweithwyr llawrydd yn y **DU.**
  - **2,229** o weithwyr a gweithwyr llawrydd yng **Nghymru.**
  - **245** o weithwyr a gweithwyr llawrydd yn **Sir Gaerfyrddin.**

Costau cynhyrchu

- Mae cwmnïau cynhyrchu yn amcangyfrif **bod costau cynhyrchu wedi cynyddu 5-30%** o ganlyniad i **Covid-19** oherwydd gweithdrefnau diogelwch ychwanegol a goblygiadau o ran staffio, amser a lleoliadau.
- Mae'r **cynnydd mewn cynyrchiadau rhwydwaith a chynyrchiadau rhyngwladol** sy'n cael eu ffilmio yng Nghymru wedi arwain at **fwy o gystadleuaeth** am gast a chriw, yn enwedig y rhai mwyaf profiadol.
    - Ategir hyn gan dystiolaeth o'r adroddiad diweddar *BBC Value for Audiences*, sy'n tynnu sylw at effeithiau sylweddol cystadleuaeth ar chwyddiant yn sgil gwasanaethau Fideo Ar Gais i Danysgrifwyr.
    - Er bod hyn wedi darparu cyfleoedd i newydd-ddyfodiaid, mae'n **cynyddu costau cynhyrchu** ac yn creu **prinder sgiliau** mewn rhai rolau.
- Mae cwmnïau cynhyrchu yn tynnu sylw at y **gwerth da am arian** a ddarperir gan gynyrchiadau S4C, gan adrodd bod **cyllidebau ar gyfer cynhyrchu allbynnau S4C yn sylweddol is** nag ar gyfer darlledwyr eraill.
    - Nododd rhanddeiliaid fod gallu cwmnïau cynhyrchu yng Nghymru i weithio'n glyfar ac yn effeithlon yn gwneud y busnesau hyn a gweithlu teledu a ffilm Cymru yn ddeniadol i rwydweithiau cenedlaethol a rhyngwladol eraill.

Sgiliau a hyfforddiant

- Mae S4C yn arwyddocaol o ran darparu **cyfeiriad strategol a chyllid ar gyfer hyfforddi'r gweithlu** drwy'r corff annibynnol TAC sy'n cynrychioli'r sector cynhyrchu teledu annibynnol yng Nghymru.
    - Hyfforddwyd oddeutu **500** o weithwyr proffesiynol y diwydiannau creadigol drwy gyrsiau a gydlynwyd gan TAC yn ystod 2020.
    - Nododd y rhanddeiliaid fod cyllid S4C ar gyfer TAC ers 2017 wedi bod yn hanfodol yn ystod cyfnod o gyllid cyfyngedig ar gyfer hyfforddi'r gweithlu.
- Mae S4C yn un o gyllidwyr pwysig **prentisiaethau**, yn uniongyrchol fel cyflogwr ac yn anuniongyrchol drwy ei gwariant ar y sector cynhyrchu annibynnol.
    - Noda darparwyr hyfforddiant fod **30-40% o brentisiaid y diwydiannau creadigol yng Nghymru yn gweithio ar gynyrchiadau S4C** yn ystod rhan o'u lleoliad gwaith.
    - Mae S4C yn chwarae rhan bwysig yn y broses o **greu partneriaethau strategol** rhwng cyllidwyr, darparwyr

	hyfforddiant a chyflogwyr sy'n helpu i gefnogi rhaglenni prentisiaeth.
Canlyniadau ieithyddol, diwylliannol a chymdeithasol	• Mae rhanddeiliaid a chwmnïau cynhyrchu yn pwysleisio pwysigrwydd **cyfraniad diwylliannol ac ieithyddol** S4C, o ran ei rhaglenni a'i heffaith economaidd anuniongyrchol. • Tynnodd y rhanddeiliaid sylw at rôl bwysig S4C o ran darparu **swyddi mewn ardaloedd â chyfrannau uchel o siaradwyr Cymraeg,** gan gynnwys ardaloedd difreintiedig yng nghefn gwlad gogledd a gorllewin Cymru. ○ Mae hyn yn helpu i **leihau allfudo** ac yn galluogi siaradwyr Cymraeg o oedran gweithio i gyfrannu at weithgareddau Cymraeg a chynnal cyfansoddiad cymdeithasol a diwylliannol eu hardaloedd.

1. Cyflwyniad

Comisiynwyd cwmni ymchwil Arad gan S4C i gynnal asesiad effaith economaidd o weithgareddau'r darlledwr. Nod yr asesiad oedd ymchwilio i werth economaidd S4C i economi'r DU a Chymru, yn ogystal ag effaith adleoli pencadlys S4C i ganolfan *Yr Egin* yn Sir Gaerfyrddin. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu canfyddiadau'r astudiaeth.

1.1 S4C

Sianel Gymraeg yw S4C sy'n darlledu ac yn comisiynu amrywiaeth eang o raglenni teledu a chynnwys digidol. Caiff y rhan fwyaf o gynnwys y sianel ei gomisiynu drwy gwmnïau cynhyrchu annibynnol yng Nghymru, sy'n cynhyrchu gwariant ac incwm ar gyfer busnesau, staff a gweithwyr llawrydd y diwydiannau creadigol yng Nghymru a'r DU. Roedd S4C y cyflogi cyfartaledd o 101 o staff cyfwerth ag amser llawn yn ystod y flwyddyn ariannol 2019-20 yn ei swyddfeydd yng Nghaerfyrddin, Caerdydd a Chaernarfon.

Roedd gan S4C incwm o £97.5m yn 2019-20, ac o'r swm hwnnw daeth:

- £74.5m o ffi’r drwydded deledu;
- £22.7m o'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS);
- £0.3m o ffynonellau eraill, gan gynnwys incwm masnachol.

Cyfanswm gwariant S4C yn 2019-20 oedd £102.7m, ac o'r swm hwnnw:

- gwariwyd £95.7m ar nwyddau a gwasanaethau;
- gwariwyd £3.8m ar gyflogau;
- gwariwyd £3.2m ar eitemau eraill, gan gynnwys trethi a chyfraniadau pensiwn.

Mae dadansoddiad o wariant S4C ar wasanaethau nwyddau yn 2019-20 yn dangos bod:

- 97% o holl wariant S4C ar nwyddau a gwasanaethau yn cael ei wario ar sefydliadau yn y DU;
- 77% o holl wariant S4C ar nwyddau a gwasanaethau yn cael ei wario ar sefydliadau yng Nghymru;

1.1.1 Adleoli S4C i ganolfan *Yr Egin* yn Sir Gaerfyrddin

Yn 2018, symudodd S4C ei phencadlys i ganolfan greadigol a digidol newydd sbon, *Yr Egin*, ar gampws Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yng Nghaerfyrddin. Roedd penderfyniad Awdurdod S4C, yn dilyn proses gystadleuol, i adleoli i ganolfan *Yr Egin* a dod yn denant angor yno yn allweddol i adeiladu'r ganolfan. O ganlyniad mae *Yr Egin* wedi dod yn lleoliad ar gyfer clwstwr o denantiaid sy'n gwmnïau a sefydliadau o'r diwydiannau creadigol. Mae rhai o'r cwmnïau hyn yn gwmnïau newydd ac eraill wedi adleoli rhai o'u gweithgareddau o'r tu allan i'r ardal.

Mae *Yr Egin* hefyd wedi dod yn lleoliad stiwdio ar gyfer cynyrchiadau teledu, ffilm, cerddoriaeth a theatr yn ogystal â bod yn hyb anffurfiol i fusnesau creadigol ac unigolion yn yr ardal. Yn sgil hyn mae'r ganolfan wedi croesawu tua 10,000 o ymwelwyr y flwyddyn, gan greu rhagor o wariant ac incwm i'r economi leol.

Derbynnir yn gyffredinol na fyddai cysyniad *Yr Egin*, wedi cael ei wireddu oni bai bod S4C wedi penderfynu adleoli i'r ardal. Yn ogystal, gwnaed gwelliannau i'r seilwaith lleol gyda buddsoddiad o £7.8m mewn ffordd newydd a ddarparwyd gan Gyngor Sir Caerfyrddin. Felly mae'r astudiaeth hon wedi ymchwilio i effeithiau gwariant gan *Yr Egin* fel endid ar wahân, ac mae'n ystyried mai'r rhain yw effeithiau anuniongyrchol S4C ar economïau Cymru a'r DU. Mae'r astudiaeth hefyd yn ystyried effeithiau S4C, gan gynnwys *Yr Egin,* ar yr economi leol yn Sir Gaerfyrddin.

1.2 Ynglŷn â'r adroddiad hwn

Amlinellir y fethodoleg ar gyfer yr asesiad yn Adran 2, a'r canfyddiadau ar werth economaidd S4C ac effaith y sianel ar gyflogaeth yn Adran 3. Mae Adran 4 yn cynnwys tystiolaeth o effeithiau ehangach S4C ar sgiliau, hyfforddiant, iaith a diwylliant ynghyd â'i chyfraniad at amcanion strategol DCMS. Mae Adran 5 yn cynnwys astudiaethau achos o fusnesau creadigol sy'n cyflenwi cynnwys a gwasanaethau i S4C.

2. Methodoleg

Mae ein dadansoddiad o effaith economaidd S4C yn seiliedig ar y canlynol:

- **Effaith uniongyrchol:** gwariant uniongyrchol yn seiliedig ar wariant S4C ar nwyddau, gwasanaethau a chyflogau;

- **Effeithiau anuniongyrchol:** incwm a gwariant a gynhyrchwyd drwy'r gwariant gan *Yr Egin,* y ganolfan ddiwylliannol y daeth S4C yn denant angor iddi yn 2018, yn Sir Gaerfyrddin ac ymwelwyr y ganolfan;

- **Effeithiau ysgogedig:** y cyfraniadau a wnaed at incwm a gwariant drwy gadwyn gyflenwi gyfan S4C.

Cyfrifwyd gwerth economaidd S4C drwy'r cysyniad o Effaith Lluosydd Keynesaidd. Mae'r effaith hon yn ystyried:

- Bod **gwariant uniongyrchol** gan S4C ar gyflogau, nwyddau a gwasanaethau yn cynhyrchu incwm i fusnesau ac unigolion eraill yn yr economi leol (y DU, Cymru, Sir Gaerfyrddin);

- Bod yr incwm hwn yn sbarduno rhagor o rowndiau gwario (**ysgogedig**) gan y derbynnydd (busnesau, gweithwyr llawrydd, unigolion) gyda rhywfaint ohono'n cael ei ddal yn ôl neu ei wario y tu allan i'r economi leol (gollyngiadau) ym mhob rownd wario;

- Bod y broses hon yn cael ei hailadrodd nes bod yr incwm lleol a grëir yn gostwng i lefel ddibwys.

Cyfanswm y gwerth economaidd i'r economi leol yw swm y cylchoedd gwario hyn. Nid yw'r asesiad yn gwneud asesiad gwrthffeithiol er mwyn ystyried ffyrdd amgen y gallai incwm S4C fod wedi'i wario. Felly mae'r ffigurau gwerth economaidd a gyfrifwyd yn adlewyrchu'r effaith economaidd fwyaf y mae disgwyl i gyfraniadau S4C i'r economi ei chreu.

Mae'r canfyddiadau'n seiliedig ar y flwyddyn ariannol 2019-20, a gwnaed dadansoddiad yn seiliedig ar dair ardal ddaearyddol: y DU, Cymru a Sir Gaerfyrddin, lle yr adleoliodd S4C ei phencadlys yn 2018.

Mae'r asesiad wedi cynnwys ymchwil gynradd ac eilaidd gan gynnwys:

- Data ar incwm a gwariant gan S4C a chanolfan *Yr Egin*;
- Arolwg o gwmnïau cynhyrchu a chwmnïau eraill sy'n cyflenwi nwyddau a gwasanaethau i S4C;
- Arolwg o staff S4C;
- Cyfweliadau â chyflenwyr S4C o'r diwydiannau creadigol;
- Cyfweliadau â sefydliadau rhanddeiliaid S4C.

2.1 Ffynonellau data

Derbyniwyd data ar incwm a gwariant S4C yn seiliedig ar y flwyddyn 2019-20, ac fe'u defnyddiwyd i nodi'r effaith **uniongyrchol** yn y DU, Cymru a Sir Gaerfyrddin. Roedd y data manwl ar wariant yn eu galluogi i gynnal dadansoddiad i bennu faint yr oedd y darlledwr yn ei wario ar gyflenwyr a staff yn yr ardaloedd economaidd hyn.

Defnyddiwyd data o gyfrifon blynyddol *Yr Egin* i bennu gwariant **anuniongyrchol** S4C ynghyd â data o'r ganolfan ar nifer yr ymwelwyr a data eilaidd ar wariant cyfartalog ymwelwyr yn ystod ymweliadau dydd yng Nghymru yn seiliedig ar adroddiad blynyddol *The Great Britain Day Visitor 2019*.[2]

Cynhaliwyd arolygon o gyflenwyr a staff S4C i helpu i ganfod effaith **ysgogedig** y darlledwr. Ymatebodd cyfanswm o 78 o blith 145 o gwmnïau cynhyrchu a chwmnïau eraill sy'n cyflenwi nwyddau a gwasanaethau i S4C i'r arolwg (sy'n cyfateb i 54%).[3] Roedd y cyflenwyr a gwblhaodd yr arolwg yn cyfrif am 69% o wariant S4C ar nwyddau a gwasanaethau, gan alluogi'r ymchwil i amcangyfrif cyfran gyfartalog yr incwm y mae cyflenwyr yn ei gael o S4C sy'n cael ei wario yn yr economi leol (cyfradd gadw) gyda chryn hyder. Yn ogystal, cwblhaodd 36 o blith 101 (36%) o staff yr arolwg, gan ein galluogi i lunio amcangyfrif o gyfran gyfartalog gwariant S4C ar gyflogau a gedwir yn yr economi leol.

Defnyddiwyd ffynonellau data eilaidd gan gynnwys Cyfrifon Economaidd y DU, data proffidioldeb net cwmnïau y DU, cymarebau cenedlaethol cynilion aelwydydd y DU ac asesiadau o effaith economaidd blaenorol o S4C (Ymchwil Arad, 2013 a 2015; DTZ, 2007) i wirio'r data ac i wneud rhai rhagdybiaethau ynghylch gwariant a threthiant.

[2] Gweler https://www.visitbritain.org/sites/default/files/vb-corporate/gbdvs_2019_annual_report_-_a.pdf

[3] Dim ond cyflenwyr a ddarparodd nwyddau a gwasanaethau gwerth dros £5,000 i S4C yn ystod 2019-20, ac a oedd â manylion cyswllt dilys a gafodd eu cynnwys yn yr arolwg.

3. Effaith economaidd

Nodir canfyddiadau'r asesiad o effaith economaidd isod yn seiliedig ar wariant S4C yn 2019-20. Mae'r data wedi'u talgrynnu ac nid ydynt bob amser yn cyfateb yn union i'r cyfansymiau a ddangosir.

3.1 Gwerth economaidd S4C i'r DU a Chymru

Cyfanswm effaith economaidd S4C ar yr economi:
Yn y DU: £197.4m
Yng Nghymru: £141.1m

Mae data ar wariant S4C yn dangos bod y darlledwr wedi gwario cyfanswm o £95.7m ar nwyddau a gwasanaethau yn 2019-20, gyda:

- 97% o hyn (£92.9m) wedi'i wario ar gyflenwyr yn y DU;
- 77% o hyn (£73.8m) wedi'i wario ar gyflenwyr yng Nghymru;

Yn ogystal â hynny, gwariodd S4C £3.8m ar gyflogau i staff (gan gynnwys aelodau'r bwrdd), y mae pob un ohonynt yn byw yn y DU yn 2019-20, gyda bron yr holl wariant hwn (98%) ar staff sy'n byw yng Nghymru. Cyfanswm effaith **uniongyrchol** y darlledwr ar economi'r DU felly yw £96.7m a'r effaith uniongyrchol ar Gymru yw £77.6m.

Effaith uniongyrchol S4C ar yr economi:
Yn y DU £96.7m
Yng Nghymru £77.6m

Gan gynnwys:
Nwyddau a gwasanaethau: Y DU £92.9m, Cymru £73.8m
Cyflogau unigolion: Y DU a Chymru £3.8m

Mae S4C hefyd yn creu effeithiau **anuniongyrchol** fel tenant angor canolfan greadigol a digidol *Yr Egin* yn Sir Gaerfyrddin. Mae modd defnyddio gwariant y ganolfan o £0.2m ar nwyddau a gwasanaethau a £0.1m ar gyflogau yn 2019-20 ynghyd ag amcangyfrif o wariant lleol gan ymwelwyr (Gweler Adran 3.2) o £0.4m i amcangyfrif effaith anuniongyrchol S4C fel £0.8m (ffigurau wedi'u talgrynnu).

Effaith anuniongyrchol S4C ar economi'r DU a Chymru: £0.8m

Gan gynnwys (ffigurau wedi'u talgrynnu):
Gwariant ar nwyddau, gwasanaethau a chyflogau canolfan *Yr Egin*: £0.3m
Gwariant gan ymwelwyr â chanolfan *Yr Egin*: £0.4m

Cafodd effaith **ysgogedig** S4C ar yr economi yn y DU a Chymru ei chyfrifo gan ddefnyddio'r data ar wariant uniongyrchol ochr yn ochr â data o arolygon cyflenwyr a staff S4C a data eilaidd. Mae hyn yn ein galluogi i amcangyfrif cyfran yr incwm y mae cyflenwyr a staff yn ei gael o S4C sy'n cael ei wario yn y DU a Chymru.

Dengys y data fod cyflenwyr, ar gyfartaledd, wedi gwario 90% o gyfanswm eu hincwm (eu tueddiad gwario), a bod 81% o gyfanswm eu gwariant ar gyflogau, nwyddau a gwasanaethau yn wariant ar gyflenwyr a staff yng Nghymru (tybir bod hyn yn 90% yn y DU).[4] Dangosodd yr ymatebion i'r arolwg staff eu bod wedi gwario 41% o'u hincwm ar nwyddau a gwasanaethau gan gyflenwyr sydd wedi'u lleoli yng Nghymru (tybir bod hyn yn 90% ar gyfer y DU), a thybiwyd bod eu tueddiad gwario yn 93% (yn seiliedig ar gymarebau cynilo cenedlaethol cyfartalog aelwydydd y DU).[5]

Gan ddefnyddio'r cyfraddau hyn, mae'r asesiad yn amcangyfrif bod gwariant uniongyrchol ac anuniongyrchol S4C yn ysgogi effaith o £115.6m yn y DU a £74.4m yng Nghymru.

Effaith ysgogedig S4C ar yr economi:
Yn y DU £99.9m
Yng Nghymru £62.8m

Gan gynnwys yr effaith a ysgogwyd gan:
Wariant ar nwyddau a gwasanaethau: Y DU £93.2m Cymru £60.9m
Gwariant ar gyflogau: Y DU £6.7m Cymru £1.9m

Amlygodd y rhanddeiliaid a'r cyflenwyr a ymatebodd i'r arolwg sut y mae gwariant S4C yn creu effeithiau ysgogedig a manteision ychwanegol, megis drwy hyrwyddo busnesau Cymru.

'Yn ogystal â'r cwmnïau cynhyrchu, mae'r gwariant hefyd o fudd i'r economi ehangach, sy'n elwa drwy swyddi cannoedd o weithwyr llawrydd a busnesau technegol fel goleuo ac ôl-gynhyrchu, lletygarwch fel gwestai, bwytai a llety gwely a brecwast, arlwyo, crefftau fel seiri coed a thrydanwyr, busnesau trafnidiaeth a busnesau lleol ledled Cymru.'

Luned Whelan, Rheolwr Gweithredol, TAC (Corff sy'n cynrychioli Cwmnïau Cynhyrchu Teledu Annibynnol yng Nghymru)

[4] Mae hyn yn gyson ar y cyfan â chyfraddau cadw cyfartalog mewn arolygon blaenorol o gyflenwyr S4C yn ogystal â chyfraddau proffidioldeb net cyfartalog cwmnïau yn y DU.
[5] Gweler UK Economic Accounts time series (UKEA)

'Mae S4C wedi cael effaith gadarnhaol ar ein busnes, ond hefyd ar economi Cymru, gan fod pob un o ymgyrchoedd hysbysebu S4C yn rhai lleol sy'n golygu bod yr arian yn cael ei wario yng Nghymru.'

Ymateb i'r arolwg o gyflenwyr S4C

3.1.1 Adfywio economaidd: cefnogi busnesau newydd

Yn ogystal â chefnogi busnesau bach a chanolig sydd wedi hen ennill eu plwyf ac sy'n gweithio gyda darlledwyr a dosbarthwyr ledled y DU ac yn fyd-eang, mae llawer o gyflenwyr S4C yn gwmnïau bach a sefydlwyd yn ddiweddar. Canmolodd y cyflenwyr natur agored a pharodrwydd S4C i weithio gyda chwmnïau newydd a'u cefnogi yn greadigol ac yn fasnachol. Rhoddodd y cwmnïau newydd a ymatebodd i'r arolwg o gyflenwyr gipolwg ar ba mor bwysig oedd S4C iddynt o ran cael eu traed danynt yn y diwydiannau creadigol.

'Fel cwmni ifanc newydd iawn, mae comisiynau S4C wedi bod yn hanfodol er mwyn sefydlu'r busnes. Mae'r trosiant wedi cynyddu yn yr ail flwyddyn ariannol, a dim ond oherwydd y gefnogaeth a'r comisiynau a ddarparwyd gan S4C yn ystod y flwyddyn fasnachu gyntaf y bu hyn yn bosibl.'

'Mae S4C wedi bod yn bwysig iawn yn ystod blynyddoedd cyntaf ein busnes.'

'Mae S4C yn cael effaith gadarnhaol iawn ar y busnes. Mae'n gwmni dibynadwy i ddelio ag ef ac mae'n rhoi sylfaen dda i gwmnïau bach dyfu, sydd wedyn yn galluogi'r cwmnïau yma yng Nghymru i gystadlu i gystadlu a dod â mwy o waith i Gymru o rannau eraill o'r Deyrnas Unedig a'r byd. Mae gwariant S4C yn ein galluogi i hyfforddi a datblygu sgiliau ein gweithwyr yng Nghymru. Er bod y cwmni wedi'i leoli yng Nghaerdydd mae ein gwariant yn cyrraedd llu o wahanol ardaloedd o Gymru.'

Ymatebwyr i'r arolwg o gyflenwyr S4C

3.2 Yr effaith economaidd yn Sir Gaerfyrddin

Effaith economaidd S4C ar Sir Gaerfyrddin: £18.2m

Symudodd S4C ei phencadlys i ganolfan greadigol a digidol newydd *Yr Egin* yng Nghaerfyrddin yn 2018. Arweiniodd penderfyniad S4C yn 2014 i adleoli a dod yn denant angor y ganolfan yn uniongyrchol at adeiladu'r ganolfan fel lleoliad diwylliannol, hyb busnes a chreadigol a lleoliad ar gyfer busnesau tenant. Mae canolfan *Yr Egin* wedi'i lleoli ar gampws Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant ac roedd y prosiect adeiladu yn bartneriaeth rhwng y Brifysgol, S4C, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, Cyngor Sir Caerfyrddin a'r sector creadigol.

Mae adleoli S4C i ganolfan *Yr Egin* wedi arwain at amryw o effeithiau economaidd mesuradwy i Sir Gaerfyrddin:

- Mae rhai o weithwyr S4C ac, o ganlyniad, gweithgaredd economaidd S4C, wedi symud o Gaerdydd i Sir Gaerfyrddin;
    - Roedd 32 o blith y 134 o unigolion a gyflogwyd gan S4C yn 2019-20 yn byw yn Sir Gaerfyrddin, gan gynrychioli tua chwarter (24%) y rhai a gyflogwyd.
    - Mae hyn yn cynnwys pum aelod o staff a ddewisodd adleoli i Sir Gaerfyrddin yn sgil adleoli pencadlys S4C, a deg a ddechreuodd weithio gydag S4C yn ystod neu ar ôl yr adleoli i ganolfan *Yr Egin*;
- Agorodd rhai busnesau creadigol annibynnol swyddfa yn *Yr Egin*;
    - Ymhlith yr enghreifftiau mae Boom Cymru a Gorilla;
- Daeth rhai busnesau creadigol llai a busnesau newydd yn denantiaid y ganolfan (e.e. Lens 360 a unodd â Whisper Cymru yn ddiweddarach);

Er y gallai rhai o'r uchod gael eu hystyried yn effeithiau dadleoli pan edrychir arnynt ar lefel y DU neu ar lefel Cymru, mae'r datblygiadau hyn wedi symud gweithgaredd economaidd i ran o Gymru lle ceir mwy o anfantais economaidd-gymdeithasol, gan gyfrannu at leihau anghydraddoldebau economaidd yng Nghymru a'r DU. Yn ogystal â hynny, mae datblygiad *Yr Egin* wedi arwain at wariant ychwanegol yn yr ardal gan ymwelwyr â'r ganolfan, gan gynnwys cynulleidfaoedd stiwdio ar gyfer rhaglenni S4C.

Gwariodd S4C gyfanswm o £13.1m ar nwyddau a gwasanaethau gan gyflenwyr yn Sir Gaerfyrddin a £0.9m arall ar gyflogau staff a gweithwyr llawrydd sy'n byw yn yr ardal; cyfanswm o £14.0m o ran effaith **uniongyrchol**.

Effaith uniongyrchol gwariant S4C yn Sir Gaerfyrddin: £14.0m

Gan gynnwys gwariant ar:
Nwyddau a gwasanaethau gan gyflenwyr yn yr ardal: £13.1m
Cyflogau unigolion sy'n byw yn yr ardal: £0.9m

Creodd S4C hefyd effaith **anuniongyrchol** drwy fod yn denant angor ac yn gatalydd ar gyfer gwariant ychwanegol gan ganolfan *Yr Egin*. Gwariodd y ganolfan £0.1m ychwanegol ar nwyddau a gwasanaethau gan gyflenwyr yn Sir Gaerfyrddin yn 2019-20, a gwariwyd £0.1m ar gyflogau staff *Yr Egin* sy'n byw yn yr ardal (ffigurau wedi'u talgrynnu). Gellir ystyried hefyd bod gwariant gan ymwelwyr â'r ganolfan yn 2019-20 - gan gynnwys cynulleidfaoedd byw ar gyfer sioeau S4C fel *Jonathan*, perfformiadau theatr, cynadleddau a digwyddiadau addysgol - yn effeithiau anuniongyrchol. Yn seiliedig ar niferoedd yr ymwelwyr yn 2019-20 (gyda rhai addasiadau i ystyried effaith Covid-19 ar y rhain), cafodd cyfanswm y gwariant ychwanegol ar gyfer yr ymwelwyr hyn ei gyfrifo o ddata gwariant cyfartalog ymwelwyr yng Nghymru.[6] Yn seiliedig ar hyn, amcangyfrifwyd bod ymwelwyr wedi gwario £0.4m ychwanegol yn Sir Gaerfyrddin yn 2019-20.

Effaith anuniongyrchol S4C ar yr economi yn Sir Gaerfyrddin: £0.6m

Gan gynnwys:
Gwariant ar nwyddau, gwasanaethau a chyflogau canolfan *Yr Egin*: £0.2m
Gwariant gan ymwelwyr â chanolfan *Yr Egin*: £0.4m

Cafodd data ar wariant S4C ar staff a chyflenwyr yn Sir Gaerfyrddin a chan gyflenwyr eraill S4C sydd wedi'u lleoli yn *Yr Egin*, ochr yn ochr ag ymatebion i'r arolwg gan y staff a'r cwmnïau hyn, eu dadansoddi i amcangyfrif effaith **ysgogedig** S4C yn Sir Gaerfyrddin.

Amcangyfrifodd cyflenwyr S4C â chanddynt leoliad busnes yn Sir Gaerfyrddin fod 36% o'u gwariant ar gyfartaledd ar gyflogau, nwyddau a gwasanaethau gan unigolion a chwmnïau yn Sir Gaerfyrddin. Amcangyfrifodd y staff fod 20% o'u gwariant ar nwyddau a gwasanaethau gan gyflenwyr sydd wedi'u lleoli yn yr ardal. Defnyddiwyd y cyfraddau cadw hyn, ynghyd â thuedd gwario ymylol dybiedig aelwydydd a busnesau o 90%, i amcangyfrif bod S4C yn cynhyrchu effaith economaidd ysgogedig o £3.7m yn Sir Gaerfyrddin.

Effaith ysgogedig S4C yn Sir Gaerfyrddin: £3.7m

Gan gynnwys yr effaith a ysgogwyd gan:
Wariant ar nwyddau a gwasanaethau: £3.5m
Gwariant ar gyflogau: £0.2m

[6] Defnyddiwyd y cynnydd canrannol cyfartalog yn nifer yr ymwelwyr misol â chanolfan *Yr Egin* rhwng chwe mis cyntaf 2018-19 a chwe mis cyntaf 2019-20 i gynhyrchu amcangyfrifon o nifer yr ymwelwyr ar gyfer y cyfnod 2019-20 yr effeithiwyd arno gan Covid-19. Deilliodd y ffigurau gwariant ymwelwyr cyfartalog (ymweliadau dydd o 3 awr neu fwy) o adroddiad blynyddol *The Great Britain Day Visitor 2019.* Gweler https://www.visitbritain.org/sites/default/files/vb-corporate/gbdvs_2019_annual_report_-_a.pdf

Nododd y rhan fwyaf o gyflenwyr S4C (89%) a chanddynt eiddo busnes parhaol yn Sir Gaerfyrddin fod adleoli S4C i ganolfan *Yr Egin* wedi cael rhywfaint o effaith gadarnhaol ar eu trosiant, eu proffidioldeb a'u costau, ar gydweithredu ac ar ennill gwaith newydd.

Mae'r astudiaeth achos isod yn archwilio'r effaith benodol y mae canolfan *Yr Egin* wedi'i chael ar yr economi leol yn Sir Gaerfyrddin.

YR EGIN

Mae adleoli S4C i ganolfan greadigol a digidol newydd sbon ar gampws Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant wedi creu effeithiau economaidd sylweddol. Yn ystod y cam **adeiladu**, amcangyfrifwyd bod **£4m wedi'i wario yn economi Cymru** ac, ers dod yn weithredol yn 2018, mae'r ganolfan yn cynhyrchu manteision economaidd blynyddol parhaus. Yn **2019-20**, amcangyfrifir bod *Yr Egin* wedi cael **effaith economaidd o £5.6m** ar Sir Gaerfyrddin.

Y cam adeiladu

Fel tenant angor, roedd ymrwymiad S4C i brydles hirdymor yn y ganolfan wedi helpu i sicrhau buddsoddiad pellach gan Lywodraeth Cymru a Bargen Ddinesig Llywodraeth y DU ar gyfer Dinas-ranbarth Bae Abertawe. Mae data gan y prif gontractwr adeiladu (Kier) yn dangos bod y cyfnod adeiladu wedi cynhyrchu gwariant o **£4m yn economi Cymru**, gydag 19 o gontractwyr o Gymru yn gweithio ar y prosiect. Darparodd y cam hwn waith i gyfanswm o 8 prentis, 8 newydd-ddyfodiad a lleoliadau profiad gwaith i 18 o bobl. Yn 2019, enillodd *Yr Egin* wobr yn y categori Masnachol yng Ngwobrau RICS Cymru a chafodd Ganmoliaeth Uchel yng Ngwobrau RICS y DU. Yn ogystal â hynny, gwnaed gwelliannau i'r seilwaith lleol yn sgil datblygu **buddsoddiad newydd o £7.8m mewn ffyrdd** a ddarparwyd gan Gyngor Sir Caerfyrddin.

Cymuned fywiog o gwmnïau tenant

Ers iddi agor, mae *Yr Egin* wedi dod yn lleoliad ar gyfer clwstwr o gwmnïau a sefydliadau tenant, llawer ohonynt o'r diwydiannau creadigol. Yn ogystal ag S4C fel tenant angor, mae 12 o gwmnïau tenant yn *Yr Egin* gan gynnwys: Asset Finance Solutions, Atebol, Boom Cymru, Capten Jac, Orchard Media, Gorilla, Highly, Whisper Cymru, Moilin, Optimwm, Stiwdiobox a Trywydd.

Mae'r cwmnïau tenant yn cynnwys busnesau newydd a chwmnïau sefydledig sydd wedi gweld cyfle i agor ail neu drydedd swyddfa yn y ganolfan. Noda Carys Ifan, Cyfarwyddwr *Yr Egin*, fod cydleoli cwmnïau wedi arwain at gydweithredu a rhwydweithio sylweddol rhwng tenantiaid, ynghyd â chodi proffil y diwydiannau creadigol yn y rhanbarth yn llwyddiannus, gydag adleoliad S4C yn gatalydd ar gyfer hyn:

> *'Mae'n gymuned greadigol go iawn, Yr Egin yw'r rhyngwyneb ar gyfer croesbeillio rhwng y diwydiannau creadigol, y gynulleidfa a'r gronfa dalent o'r Brifysgol. S4C yw'r 'jam yn y frechdan' sy'n ganolbwynt i bobl greadigol ac yn eu dwyn ynghyd.'*

Gofod creadigol a diwylliannol i hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru

Mae canolfan *Yr Egin* hefyd wedi dod yn lleoliad stiwdio ar gyfer cynyrchiadau teledu a theatr yn ogystal â bod yn hyb anffurfiol i fusnesau creadigol ac unigolion yn yr ardal. Yn sgil hyn mae'r ganolfan wedi croesawu tua 10,000 o ymwelwyr bob blwyddyn, gan greu rhagor o wariant ac incwm i'r economi leol. Cyn Covid-19 yn gynnar yn 2020, mae cynnydd misol yn nifer yr ymwelwyr â'r ganolfan o gymharu â 2018-19 yn awgrymu ei bod wedi bod ar y trywydd iawn i gyrraedd tua 16,000 o ymwelwyr yn y flwyddyn 2019-20.

Mae'r ganolfan yn darparu ar gyfer cynulleidfaoedd teledu byw, theatr, digwyddiadau cerddorol ac addysgol ynghyd â darparu lle ar gyfer rhwydweithio a rhyngweithio cymdeithasol. Esbonia Gwilym Dyfri Jones, Profost ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, sut y mae'r ganolfan o fudd diwylliannol i'r ardal:

> *'Rhan o'r weledigaeth ar gyfer Yr Egin oedd dod ag S4C yn agosach at ei chynulleidfa. Drwy ddarparu gofod stiwdio hygyrch o ansawdd uchel ar gyfer cynulleidfaoedd cynhyrchu, mae'n gwneud hynny'n llythrennol. Mae'n denu pobl o bob cefndir ac yn darparu cyrchfan ar eu cyfer, ac ymdeimlad o falchder dinesig.'*

Effaith economaidd leol

Amcangyfrifir bod *Yr Egin* wedi creu effaith economaidd o **£5.6m yn Sir Gaerfyrddin** yn 2019-20 drwy:[7]

- Wariant S4C a chanolfan *Yr Egin* ar gyflogau staff sy'n byw yn Sir Gaerfyrddin yn 2019-20.
- Gwariant *Yr Egin* ar nwyddau a gwasanaethau gan gyflenwyr yn Sir Gaerfyrddin a gwariant blynyddol ymwelwyr yn yr ardal.
- Gwariant gan gwmnïau tenant *Yr Egin* (ac eithrio S4C ei hun) yn Sir Gaerfyrddin yn 2019-20.

[7] Nid yw'r ffigur hwn yn cynnwys effeithiau uniongyrchol ac ysgogedig gwariant S4C ar nwyddau a gwasanaethau gan gyflenwyr eraill yn Sir Gaerfyrddin.

- Effeithiau ysgogedig a gynhyrchir gan yr uchod.

Creu cyflogaeth

Amcangyfrifir bod 102 o staff wedi'u cyflogi yn y ganolfan yn 2019-20 (cyn pandemig Covid-19) gan gynnwys staff a gyflogwyd gan S4C, *Yr Egin* ei hun a'r cwmnïau tenant. Yn 2019-20 roedd S4C yn cyflogi 32 aelod o staff sy'n byw yn Sir Gaerfyrddin, tra bod 25 aelod arall o staff a 3 phrentis yn gweithio yn Sir Gaerfyrddin ond yn byw mewn rhannau eraill o Gymru. Mae'r ganolfan ei hun yn cyflogi 3 aelod o staff amser llawn a 5 aelod rhan-amser, pob un ohonynt yn byw yng ngorllewin Cymru. Amcangyfrifir bod y cwmnïau tenant hefyd yn cyflogi 40 aelod o staff yn *Yr Egin*.

Mae rhai aelodau o staff S4C a gweithwyr busnesau tenant wedi symud i Sir Gaerfyrddin ers i'r ganolfan agor, ond i eraill mae wedi eu galluogi i aros yng ngorllewin Cymru a gweithio yn y diwydiannau creadigol. Esbonia Carys Ifan sut mae hyn yn helpu i gyflawni rhan o nod *Yr Egin*:

> *'Rhan o'r weledigaeth ar gyfer Yr Egin oedd galluogi pobl ifanc sydd eisiau gweithio yn y diwydiannau creadigol i aros yng ngorllewin Cymru, a denu eraill sydd eisiau dychwelyd i'r ardal. Rydym eisoes yn gweld enghreifftiau o hyn yn digwydd, gydag S4C, rhai o'r tenantiaid a'r myfyrwyr lleol yn gweithio ar gynyrchiadau yn y ganolfan.'*

Mae'r ganolfan hefyd yn gweithredu fel hyb ar gyfer addysg, hyfforddiant a chymorth entrepreneuraidd gyda nifer sylweddol o bobl yn cael mynediad at gyrsiau a hyfforddiant yn y ganolfan. Yn ystod pandemig y coronafeirws, mae llawer o'r cymorth hwn wedi'i ddarparu'n rhithwir.

Datblygiadau yn y dyfodol

Er bod *Yr Egin* eisoes wedi creu manteision sylweddol yn Sir Gaerfyrddin, pwysleisiodd y rhanddeiliaid fod y ganolfan yn rhan o broses adfywio economaidd, diwylliannol ac ieithyddol hirdymor yn yr ardal. Esbonia Gwilym Dyfri Jones y rhan bwysig y mae S4C yn parhau i'w chwarae yn y broses honno:

> *'Rydym eisoes yn gweld rhai effeithiau cadarnhaol o ran adfywiad diwylliannol, ieithyddol ac economaidd, ond mae hwn yn brosiect 25 mlynedd i'r ardal. Mae ymrwymiad S4C i'r Egin yn hanfodol i hynny.'*

3.2.1 Lefelu: creu swyddi a thwf mewn rhannau difreintiedig o Gymru

Mae llawer o gyflenwyr S4C wedi'u lleoli mewn ardaloedd yng Nghymru lle mae'r gwerth ychwanegol gros a chyflogau cyfartalog ymhell islaw cyfartaledd y DU, a lle nad oes llawer o gyflogwyr mawr yn cynnig swyddi o ansawdd uchel. Amlygwyd manteision comisiynau S4C i'r economi a'r farchnad lafur yn rhai o'r ardaloedd â'r lefelau uchaf o anfantais economaidd-gymdeithasol yng Nghymru gan sawl cwmni cynhyrchu a ymatebodd i'r arolwg o gyflenwyr:

'Mae Joio [cwmni cynhyrchu] wedi bod yn gweithio ym Mhort Talbot yn benodol am y 3 blynedd diwethaf. Mae Port Talbot yn ardal sydd wedi dioddef yn wael yn economaidd dros y blynyddoedd. Mae ein cynyrchiadau wedi arwain at greu swyddi arbenigol mewn ardal ddifreintiedig ac wedi dod â buddsoddiad newydd i fusnesau a darparwyr lleol. Mae sefydlu Bang [cyfres ddrama] yn y dref wedi denu nifer o gwmnïau teledu a ffilm eraill i ffilmio yn yr ardal. Mae ymrwymiad ein cwmni i'r dref wedi golygu bod rheolwyr lleoliadau a chynhyrchwyr eraill wedi darganfod yr ardal fel lleoliad ac wedi annog cyfresi fel Brave New World, Casualty a Keeping Faith i ffilmio yno hefyd sy'n dod â budd economaidd ychwanegol i'r ardal.' **Roger Williams, Joio**

'Mae cyfraniad [enw'r cwmni] i economi'r ardal hon gyda chefnogaeth S4C yn hanfodol. Ein polisi ni o'r cychwyn oedd creu swyddi o ansawdd uchel drwy gyfrwng y Gymraeg a chreu cyflogaeth i bobl ifanc yn un o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru.

'Rydym wedi gweithio ar gontract i S4C ers 2008. Mae'r gwaith wedi ein galluogi i gyflogi llawer o bobl ifanc yn y gogledd-ddwyrain.'

Ymatebwyr i arolwg o gyflenwyr S4C

3.3 Effaith ar gyflogaeth

Amcangyfrifir bod gwariant S4C yn cefnogi cyflogi:
2,435 o bobl yn y DU
2,229 o bobl yng Nghymru

Roedd S4C yn cyflogi **101 o staff (CALI)** ar gyfartaledd yn 2019-20, gyda chyfanswm o **134 o unigolion** wedi'u cyflogi yn ystod y flwyddyn. Roedd chwarter (24%) yr unigolion hyn (32 aelod o staff) yn byw yn Sir Gaerfyrddin. Mae hyn yn cynnwys pum aelod o staff a ddewisodd adleoli i Sir Gaerfyrddin yn sgil adleoli pencadlys S4C a deg a ddechreuodd weithio gydag S4C yn ystod neu ar ôl yr adleoli i ganolfan *Yr Egin*.[8] Yn ogystal, roedd S4C yn cyflogi **56 o staff llawrydd** yn ystod 2019-20.

[8] Nid yw hyn yn cynnwys staff sy'n gweithio yn Sir Gaerfyrddin ond sy'n byw y tu allan i'r ardal.

Roedd S4C yn cyflogi cyfartaledd o 101 o staff cyfwerth ag amser llawn a 56 o weithwyr llawrydd yn 2019-20

Mae gwariant S4C ar nwyddau a gwasanaethau gan gwmnïau cynhyrchu a chyflenwyr yn cynhyrchu rhagor o alw a chyflogaeth yn yr economi. Mae dadansoddiad o'r arolwg o gyflenwyr yn ein galluogi i amcangyfrif bod cyflenwyr S4C yn cyflogi 774 o staff a 590 o weithwyr llawrydd y gellir priodoli eu cyflogaeth i S4C, gyda 970 o weithwyr ychwanegol yn y gadwyn gyflenwi y mae eu swyddi'n cael eu cefnogi gan wariant S4C. Mae hyn yn golygu yr amcangyfrifir bod S4C yn cefnogi **2,334 o weithwyr a gweithwyr llawrydd y DU** drwy ei chadwyn gyflenwi gyfan:[9]

Mae effaith anuniongyrchol ac ysgogedig gwariant S4C yn creu gwaith i:
2,334 o weithwyr a gweithwyr llawrydd yn y DU
2,128 o weithwyr a gweithwyr llawrydd yng Nghymru

Gan gynnwys effeithiau uniongyrchol ac ysgogedig ar gyflogaeth, amcangyfrifir bod S4C yn cynhyrchu cyfleoedd **cyflogaeth** i **2,435** o weithwyr a gweithwyr llawrydd yn y **DU a 2,229** o weithwyr a gweithwyr llawrydd yng **Nghymru.** Fe wnaeth S4C hefyd gynhyrchu gwaith ar gyfer cyfanswm o **245** o weithwyr a gweithwyr llawrydd yn **Sir Gaerfyrddin.**

Darparodd y cwmnïau cynhyrchu a gwblhaodd yr arolwg o gyflenwyr enghreifftiau o'r mathau o effeithiau y mae S4C yn eu cael ar gyflogi staff a gweithwyr llawrydd yn eu cwmnïau:

'Mae'r gwaith rydyn ni'n ei wneud ar gyfer S4C wedi creu dros 10 o swyddi newydd, yn ogystal â chyfleoedd eraill. Mae'n galluogi'r cwmni i fuddsoddi yn y sector creadigol yng Nghymru mewn ffyrdd na fyddai'n bosibl, neu a fyddai'n arafach, fel arall. Mae hyn yn bwysig iawn o ran cynnig cyfleoedd yng nghefn gwlad Cymru.'

'Mae S4C yn hanfodol i ni fel cwmni, mae'r rhan fwyaf o waith y cwmni yn cael ei gomisiynu gan S4C, a daw talp o'n hincwm o S4C. Mae'n ein galluogi i gyflogi 35-40 o weithwyr llawrydd ac mae'n bwysig i ni fel cwmni

[9] Mae casgliadau'r dadansoddiad hwn yn gyson ar y cyfan â'r effeithiau mewn ymchwil flaenorol ar effaith S4C a gynhaliwyd gan DTZ (2007) a ganfu fod S4C wedi creu gwaith i 2,254 o weithwyr, gan gynnwys 605 mewn cwmnïau cynhyrchu, 536 o is-gontractwyr a 936 mewn sectorau eraill.

allu cefnogi unigolion a chwmnïau llai hefyd. Mae S4C yn cefnogi llawer o gwmnïau bach ac mae pob comisiwn yn creu gwaith newydd i ni.'

Ymatebwyr i arolwg o gyflenwyr S4C

3.4 Elw ar fuddsoddiad

Mae S4C yn cynhyrchu elw ar fuddsoddiad o £2.03 yn y DU am bob £1 o incwm y mae'n ei dderbyn

Roedd incwm S4C yn £97.5m, yn 2019-20, ac o'r swm hwnnw roedd £74.5m (76%) ohono yn dod o ffi trwydded deledu'r DU a £22.7m (23%) yn dod o'r DCMS. Yn seiliedig ar gyfanswm yr effaith economaidd ar y DU o £197.4m, gellir dangos:

- Bod S4C wedi cynhyrchu elw ar fuddsoddiad o **£2.03** yn y DU am bob £1 o incwm a dderbyniodd.
- Yng Nghymru, amcangyfrifir bod yr enillion ar fuddsoddiad yn **£1.45** am bob £1 a dderbyniodd.

3.5 Effaith ariannol S4C

Mae'r effeithiau economaidd uniongyrchol, anuniongyrchol ac ysgogedig sy'n deillio o S4C yn arwain at gyfraniadau treth gan fusnesau sy'n rhan o'r gadwyn gyflenwi yn ogystal â'r rhai a gyflogir yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol gan S4C. Caiff yr amcangyfrif o'r cyfraniadau treth a gynhyrchir ei grynhoi isod:

- Amcangyfrifir bod cyfanswm y cyfraniad at dreth busnes a wnaed o ganlyniad i'r effeithiau economaidd uniongyrchol ac anuniongyrchol yn **£80.6 miliwn**. Mae hyn yn cynnwys:
    - £19.9m mewn trethi a dalwyd yn uniongyrchol gan S4C;
    - £60.7m a dalwyd yn anuniongyrchol drwy fusnesau sy'n rhan o gadwyn gyflenwi S4C;[10]
- Amcangyfrifir bod cyfanswm y cyfraniad treth y rhai a gyflogir yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol gan S4C yn **£2.7 miliwn** gan gynnwys trethi gweithwyr a chyfraniadau TAW sy'n deillio o'u gwariant ar nwyddau a gwasanaethau.

[10] Yn seiliedig ar gyfradd TAW o 20% ar yr holl wariant, cyfradd dreth gyfartalog effeithiol o 25% i ystyried treth gorfforaeth, ardrethi busnes a threthi eraill. Mae'r rhain yn cael eu cyfrif fel gollyngiadau yn yr asesiad effaith economaidd.

- Felly, amcangyfrifir bod cyfanswm y cyfraniad treth uniongyrchol ac anuniongyrchol a gynhyrchir gan weithgareddau S4C yn **£83.2 miliwn**.[11]
- Mae hyn yn cyfateb i **£0.86 o dreth yn cael ei dychwelyd** i'r Trysorlys ar ffurf trethiant uniongyrchol neu anuniongyrchol am bob £1 o incwm a dderbyniwyd gan S4C yn 2019-20.

3.6 Tueddiadau'r sector

Mae tueddiadau diweddar yn y diwydiannau creadigol wedi cael effeithiau chwyddiant ar gostau cynhyrchu. Amcangyfrifodd y cwmnïau cynhyrchu a gafodd eu cyfweld fel rhan o'r astudiaeth hon fod eu **costau cynhyrchu wedi cynyddu rhwng 5% a 30%** o ganlyniad i **Covid-19.** Adroddwyd bod y cynnydd hwn mewn costau yn deillio o gydymffurfio â rheoliadau drwy roi trefniadau diogelwch ychwanegol ar waith a goblygiadau'r rhain o ran:

- staffio (e.e. cyflogi swyddogion cydymffurfio);
- cyfarpar (e.e. cyfarpar diogelu personol, awyru);
- paratoi (e.e. gwaith gweinyddol, asesiadau risg);
- amser (e.e. llai o oriau ffilmio, llai o gast a chriw ar y set ar yr un pryd);
- lleoliadau (e.e. gorfod addasu neu symud lleoliadau);
- teithio a llety (e.e. cast a chriw yn gorfod teithio'n unigol yn hytrach nag fel grŵp).

Ffactor arall a arweiniodd at gynnydd mewn costau cynhyrchu yng Nghymru fu'r **cynnydd mewn cynyrchiadau rhwydwaith a rhyngwladol** sy'n ffilmio yn y wlad. Adroddwyd bod llwyddiant Cymru o ran denu'r cynyrchiadau hyn wedi arwain at **fwy o gystadleuaeth** am gast a chriw, yn enwedig y rhai mwyaf profiadol. Adroddodd cwmnïau cynhyrchu, er bod hyn wedi darparu cyfleoedd i newydd-ddyfodiaid, mae'n **cynyddu costau cynhyrchu** ac yn creu **prinder sgiliau** mewn rhai rolau. Ategir hyn gan dystiolaeth o adroddiad diweddar *BBC Value for Audiences* a amlygodd gynnydd o fwy na 50% mewn rhai costau cynhyrchu drama oherwydd bod mwy o gystadleuaeth a phwysau cysylltiedig yn ymwneud â chwyddiant yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Noda'r adroddiad:

> *'Between 2013 and 2019, total UK SVOD revenues increased by over 300% to more than £1.2 billion. Netflix is the SVOD market leader with global revenues of more than £20 billion (and over £700 million in the UK), whilst Sky's revenue increased by over £10 billion between 2014 and 2020, and both continue to see significant year-on-year growth.*
>
> *This dramatic rise in competition for quality UK content has led to above-average inflation within significant elements of the BBC's cost base, particularly in content costs such as drama and sport, as well as an increased pressure on our ability to retain talent. Over the period 2013/14*

[11]Mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu i'r £0.1m agosaf at ddibenion cyflwyno. Rhoddir cyfrif am y trethi uniongyrchol ac anuniongyrchol hyn fel gollyngiadau yn y dadansoddiad o'r effaith economaidd ac felly ni ellir eu hystyried yn ychwanegiad at yr effaith economaidd a gynhyrchir.

to 2017/18 the gross cost-per-hour of BBC commissioned noncontinuing drama rose from £1.1m to £1.7m.' **BBC Value for Audiences**[12]

Yn gysylltiedig â hyn, amlygodd cwmnïau cynhyrchu y **gwerth da am arian** a ddarperir gan gynyrchiadau S4C, gan adrodd bod **cyllidebau ar gyfer cynhyrchu allbynnau S4C yn sylweddol is** nag ar gyfer darlledwyr eraill.

Nododd rhanddeiliaid fod gallu cwmnïau cynhyrchu yng Nghymru i weithio'n glyfar ac yn effeithlon yn golygu bod gweithlu teledu a ffilm Cymru a busnesau Cymru yn ddeniadol i rwydweithiau cenedlaethol a rhyngwladol eraill.

[12] Gweler *BBC Value for Audiences* (Chwefror 2021).

4. Effeithiau ehangach S4C

Mae'r adrannau blaenorol yn disgrifio effeithiau economaidd S4C y gellir eu mesur gan ddefnyddio data sylfaenol ac eilaidd ochr yn ochr â rhagdybiaethau amrywiol ynghylch treth a gwariant. Fodd bynnag, mae hefyd yn bwysig cydnabod effeithiau ehangach S4C ar sgiliau a hyfforddiant, yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymru a sut mae'n cyfrannu at gyflawni amcanion strategol cenedlaethol. Cyflwynir tystiolaeth ar yr effeithiau hyn isod.

4.1 Sgiliau a hyfforddiant

Mae S4C yn arwyddocaol o ran darparu **cyfeiriad strategol a chyllid ar gyfer hyfforddi'r gweithlu** drwy'r corff annibynnol TAC sy'n cynrychioli'r sector cynhyrchu teledu annibynnol yng Nghymru. Cafodd tua **500** o weithwyr proffesiynol y diwydiannau creadigol (tua 10% o'r rhain yn weithwyr llawrydd) eu hyfforddi drwy gyrsiau a gydlynwyd gan TAC yn ystod 2020. Cynhaliwyd cyfanswm o 33 o gyrsiau gan 15 o ddarparwyr yn ystod y flwyddyn yn ymwneud â 15 o feysydd arbenigol. Nododd rhanddeiliaid a gafodd eu cyfweld fel rhan o'r ymchwil hwn fod cyllid S4C ar gyfer TAC ers 2017 wedi bod yn hanfodol yn ystod cyfnod o gyllid cyfyngedig ar gyfer hyfforddi'r gweithlu yn y sector.

'Mae cyfraniad ariannol S4C yn ei gwneud yn bosibl i TAC gefnogi'r sector cynhyrchu mewn ffordd gadarn, cyson a chadarnhaol sy'n werth mwy na'r cyllid a roddir i'r darlledwr a'r sector. Mae enw da cwmnïau cynhyrchu ac ansawdd uchel eu gwaith yn werthfawr i S4C, ac mae perthynas TAC ac S4C yn werthfawr i'r ddau gorff, y naill yn cefnogi gwaith y llall. Mae ein partneriaeth hyfforddi wedi bod wrth wraidd sefydlu a gweithredu cynllun cynhwysfawr wedi'i deilwra ar gyfer y diwydiant ledled Cymru, ar gyfer aelodau TAC, cwmnïau cynhyrchu eraill a gweithwyr llawrydd (sydd wedi cael cynnig lle am ddim ers dechrau'r pandemig Covid-19).'

Luned Whelan, Rheolwr Gweithredol, TAC (Corff sy'n cynrychioli Cwmnïau Cynhyrchu Teledu Annibynnol yng Nghymru)

Mae S4C yn un o gyllidwyr pwysig **prentisiaethau**, yn uniongyrchol fel cyflogwr ac yn anuniongyrchol drwy ei gwariant ar y sector cynhyrchu annibynnol. Noda darparwyr hyfforddiant fod **30-40% o brentisiaid y diwydiannau creadigol yng Nghymru yn gweithio ar gynyrchiadau S4C** yn ystod rhan o'u lleoliad gwaith. Canmolodd rhanddeiliaid y ffaith bod S4C yn sicrhau bod prentisiaid yn cael eu cynnwys ar gomisiynau o werth penodol a bod ei gyflenwyr yn gallu rhoi profiad gwerthfawr i brentisiaid a oedd yn aml yn arwain at gael eu cynnwys ar glodrestrau cynyrchiadau llai.

'Mae llawer o brentisiaid yn cael cyfle i weithio ar un o gynyrchiadau S4C ac mae eu henw'n cael eu cynnwys ar y glodrestr hefyd, sy'n beth mawr iawn iddyn nhw o ran cael troed ar yr ysgol yrfa. Heb S4C ni fyddai'r profiad hwnnw ar gael iddyn nhw.' **Sue Jeffries, Sgil Cymru**

Mae S4C yn chwarae rhan bwysig yn y broses o **greu partneriaethau strategol** rhwng cyllidwyr, darparwyr hyfforddiant a chyflogwyr sy'n helpu i gefnogi rhaglenni prentisiaeth a rhaglenni hyfforddi'r gweithlu eraill. Canmolodd y rhanddeiliaid bartneriaeth S4C gyda darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill gan weithio ar fentrau fel y rhaglen *Factual Fast Track* (ochr yn ochr â Channel 4 a'r BBC).

Tynnodd y rhanddeiliaid sylw hefyd at rôl S4C fel partner strategol wrth gefnogi sefydliadau addysg uwch i ddatblygu cynigion ar gyfer cyllid Ymchwil ac Arloesi yn y DU. Canmolodd cynrychiolwyr addysg uwch natur unigryw S4C yn y DU, yn enwedig mewn perthynas â chydgynyrchiadau dwyieithog cefn wrth gefn, gan dynnu sylw at y ffaith bod hyn yn rhoi pwynt gwerthu unigryw i gonsortia o Gymru o ran datblygu cynigion cyllido.

4.2 Y Gymraeg a diwylliant Cymru

Mae gweithgareddau S4C yn cyfrannu at gyflawni amcanion polisi cenedlaethol gan gynnwys dyhead Llywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.[13] Yn ogystal, mae gweithgareddau S4C yn cefnogi llawer o'r canlyniadau a nodir yn strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru *Ffyniant i Bawb*, sef sicrhau cymunedau ffyniannus, annog uchelgais a dysgu a chreu cenedl fwy cysylltiedig.

Soniodd rhanddeiliaid a chwmnïau cynhyrchu a gafodd eu cyfweld am yr her unigryw sy'n wynebu S4C fel Darlledwr Gwasanaeth Cyhoeddus oherwydd anghenion amrywiol a disgwyliadau uchel ei gynulleidfa. Tynnodd sawl cyfwelai sylw at yr ystod o raglenni teledu traddodiadol gyda chynulleidfaoedd teyrngar hirsefydlog a chynnwys digidol arloesol.

> *'Nid oes unrhyw sianel arall gyda briff mor eang, sy'n gorfod darparu ar gyfer pob cenhedlaeth a phob rhan o Gymru.'*
>
> **Cyfweliad â rhanddeiliad**

Amlygodd y rhai a gyfwelwyd yr amrywiaeth o ffyrdd yr oedd S4C wedi ymateb yn gyflym i anghenion ei chynulleidfaoedd yn ystod y pandemig fel tystiolaeth o sut mae S4C yn adlewyrchu ei gwylwyr.

> *'Mae ymateb S4C i Covid, a'r ffordd y mae wedi cynnal ei pherthynas â'r gynulleidfa wedi bod yn gryfder. Aeth ati'n gyflym i gomisiynu amrywiaeth o gynnwys, o raglenni crefyddol i'r rhai na allent fynd i addoldai i ddrama fodern yn darlunio bywyd yn ystod y cyfnod clo.'*
>
> **Cyfweliad â rhanddeiliad**

[13] Gweler *Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr Cymraeg* (Llywodraeth Cymru, 2017)

Roedd rhanddeiliaid o'r farn bod parodrwydd S4C i fynd ar drywydd partneriaethau â darlledwyr eraill er mwyn comisiynu cydgynyrchiadau yn Gymraeg a Saesneg wedi bod yn fuddiol o ran codi proffil a statws y Gymraeg yn y DU ac yn rhyngwladol. Teimlai'r rhai a gyfwelwyd fod hyn wedi hyrwyddo safon uchel cynyrchiadau Cymraeg a gweithlu'r diwydiannau creadigol yng Nghymru.

4.3 Amcanion yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS)

Mae cynllun adrannol sengl 2019 y DCMS yn nodi cyfres o amcanion trosfwaol. Mae S4C yn cyfrannu at gyflawni'r rhain mewn sawl ffordd gan gynnwys drwy:

- ysgogi **twf economaidd, cyflogaeth** ac **adfywio** drwy ddarparu cyfleoedd i gwmnïau cynhyrchu o Gymru i gystadlu ar lefel y DU a chefnogi lefelu mewn ardaloedd o amddifadedd economaidd-gymdeithasol;
    - Gweler Adrannau 3.2 a 3.3 a'r astudiaethau achos yn Adran 5 ar gyfer Rondo Media, Cwmni Da, Darlun, Chwarel a Telesgop;

- cynhyrchu **allforion byd-eang** drwy ddosbarthu cynnwys yn rhyngwladol a gwerthu cydgynyrchiadau;
    - Gweler yr astudiaethau achos yn Adran 5 ar Rondo Media, Telesgop a Cwmni Da;

- ymateb mewn modd **ystwyth ac effeithlon** i gefnogi'r sector yn ystod **Covid-19** ac **ymadawiad y DU o'r UE**;
    - Gweler Adran 4.3 uchod a'r astudiaeth achos ar Vox Pictures a *Cyswllt* (Lifelines), cyfres tair rhan sy'n adlewyrchu bywyd yn ystod y cyfnod clo gyda chymeriadau canolog o wahanol oedrannau yn brwydro yn erbyn amrywiaeth o broblemau;

- adlewyrchu **anghenion ei chynulleidfa a'i chymdeithas**;
    - Gweler Adran 4.2 uchod a'r astudiaethau achos;

- ariannu a chefnogi partneriaethau strategol wrth ddatblygu **sgiliau a hyfforddiant**;
    - Gweler Adran 4.1 uchod.

Mae S4C yn cyfrannu at yr amcanion hyn ac amcanion eraill y DCMS fel y dangosir yn Ffigur 1 isod.

Ffigur 1. Sut y mae S4C yn cyfrannu at amcanion Cynllun Adrannol Sengl y DCMS



5. Astudiaethau achos

Dangosir effaith S4C ar y sector cynhyrchu annibynnol ledled Cymru yn yr astudiaethau achos isod. Mae'r astudiaethau achos yn dangos sut y mae S4C yn cael effaith ar gwmnïau cynhyrchu ledled Cymru drwy:

- ddarparu gwaith i staff a gweithwyr llawrydd;
- cynhyrchu gwariant ysgogedig mewn economïau lleol;
- cefnogi a hybu'r Gymraeg a diwylliant Cymru;
- hwyluso partneriaethau ar gyfer cydgynhyrchu;
- helpu cwmnïau i gael mynediad at farchnadoedd rhyngwladol a chystadlu'n fyd-eang.

Ffigur 2. Lleoliadau astudiaethau achos cyflenwyr S4C

RONDO

RONDO MEDIA

Sector: Cwmni cynhyrchu aml-genre annibynnol

Lleoliadau: Caernarfon, Ynys Môn, Caerdydd

Gweithwyr: 73, gan godi i 130 (yn cynnwys gweithwyr llawrydd) yn ystod ffilmio

Cefndir

Rondo Media yw un o brif gyflenwyr S4C, gan ddarparu amrywiaeth o raglenni sy'n cynnwys rhaglenni drama, chwaraeon, ffeithiol ac adloniant. Mae dwy ran o dair o'r 73 aelod o staff wedi'u lleoli yng Ngwynedd ac Ynys Môn, ardaloedd lle mae'r mwyafrif o'r boblogaeth yn siaradwyr Cymraeg a lle mae cyflogau cyfartalog yn sylweddol is na chyfartaledd y DU. Drwy ei weithrediadau mewn tri lleoliad ledled Cymru, mae 85% o wariant Rondo Media ar gyflenwyr a gweithwyr llawrydd sydd wedi'u lleoli yng Nghymru.

Effaith leol sylweddol

Un o gynyrchiadau mwyaf y cwmni ar gyfer S4C yw'r opera sebon hirhoedlog *Rownd a Rownd* sy'n cael ei ffilmio mewn lleoliadau stiwdio yn Ynys Môn a Chaernarfon neu ar leoliad yng ngogledd-orllewin Cymru. Mae'r cynhyrchiad yn cyflogi 50 o actorion ac oddeutu 80 o staff technegol a staff cynhyrchu llawrydd am gyfran sylweddol o'r flwyddyn, sy'n golygu y byddai *Rownd a Rownd* ynddo'i hun ymhlith y cyflogwyr mwyaf mewn ardal lle mai dim ond 1% o fusnesau sy'n cyflogi dros 50 o bobl. Mae ei arwyddocâd fel cyflogwr wedi cynyddu yn ddiweddar yn sgil penderfyniad Pŵer Niwclear Horizon i beidio â bwrw ymlaen â Wylfa Newydd.

Effeithiau ar y gadwyn gyflenwi

Mae'r rhan fwyaf o gyllideb y ddrama yn cael ei gwario'n lleol, gyda 71% o'r gyllideb yn cael ei gwario ar gyflogi pobl, sy'n cynrychioli £4m o wariant blynyddol yn yr economi leol. Mae hyn yn creu manteision sylweddol i'r gadwyn gyflenwi, gyda chwmni dylunio setiau lleol yn sicrhau dros £90,000 o waith yn 2020 a chwmni arlwyo lleol yn sicrhau tua £85,000 o waith yn flynyddol. Yn ogystal, mae £80,000 o'r gyllideb yn talu am yr hawliau i ddefnyddio cerddoriaeth Gymraeg ar y rhaglen, gan olygu mai dyma'r cynhyrchiad sy'n gwneud y cyfraniad economaidd mwyaf at y sector cerddoriaeth Gymraeg.

Buddsoddi yn nyfodol drama

Yn 2020, buddsoddodd Rondo mewn datblygu stiwdio ddrama newydd yn Llangefni, Ynys Môn, gyda chymorth *Cymru Greadigol*, gyda'r bwriad o ddenu cymorth pellach yn seiliedig ar ddiogelu swyddi a gwariant mewn ardal sy'n economaidd-gymdeithasol ddifreintiedig. Ar hyn o bryd mae'r cwmni'n gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu cynllun busnes er mwyn datblygu'r cyfleuster yn ofod stiwdio arbenigol ar gyfer drama, ochr yn ochr â chynllun sgiliau a hyfforddiant i ddatblygu cynhyrchu drama yn yr ardal.

Rhaglenni chwaraeon

Mae Rondo yn cynhyrchu darllediadau pêl-droed rhyngwladol a domestig o dan y brand hirsefydlog *Sgorio*. Yn ystod 2019-20, cyrhaeddodd *Sgorio* 366,000 o wylwyr (gem ragbrofion Euro 2020 Cymru yn erbyn Hwngari). Mae'r gyfres hefyd yn denu nifer fawr o ddilynwyr ar y cyfryngau cymdeithasol, gyda thros 11 miliwn o sesiynau gwylio ar draws ei chyfrifon (Facebook, Twitter a YouTube). Fel *Rownd a Rownd*, mae'r gyfres yn defnyddio cryn dipyn o gerddoriaeth gefndir Gymraeg, sydd wedi helpu'n arbennig i gefnogi artistiaid yn ystod y pandemig.

Gweithio gyda rhwydweithiau eraill

Mae comisiynau S4C wedi rhoi llwyfan i Rondo gystadlu ar lefel y DU a dod â gweithgaredd economaidd i ogledd-orllewin Cymru. Mae'r Prif Weithredwr, Gareth Williams yn disgrifio effaith S4C ar dwf a gallu'r grŵp i ddenu rhagor o gomisiynau:

> *'Mae effaith economaidd S4C ar ein busnes yn sylweddol iawn. Mae'r effaith hon yn cynnwys ennill gwaith newydd gyda darlledwyr eraill fel y BBC a Channel 4. Yn 2020, fe wnaethom lwyddo i sicrhau buddsoddiad o Gronfa Twf Channel 4 ar gyfer un o'n his-gwmnïau, Yeti.'*

Cystadlu'n fyd-eang

Mae S4C hefyd wedi helpu Rondo i allforio ei gynyrchiadau yn fyd-eang. Mae cynyrchiadau grŵp Rondo Media wedi denu incwm gros o dros £200,000 o werthiannau rhyngwladol i rwydweithiau mewn 13 o wledydd ledled y byd, gan gynnwys Discovery (UDA), SBS (De Korea), Telefonica (Sbaen), NHK (Japan) a Histoire (Ffrainc). Mae'r cwmni hefyd yn gweithio gydag ystod o ddosbarthwyr gan gynnwys Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus y DU, Cineflix, DCD Rights, Acorn, Passion ac Orange Smarty. Ymysg yr enghreifftiau o gydgynyrchiadau rhyngwladol llwyddiannus Rondo sy'n gysylltiedig ag S4C mae:

- *Philip Jones Griffiths: Ffotograffydd Rhyfel Fietnam* (The Man Who Shot Vietnam)
  - Incwm gros o £40,000 hyd at Ionawr 2021 gan gynnwys o Telepool (yr Almaen) RAI (yr Eidal) a Discovery USA.
  - Enillydd *Gwobr Ryngwladol Annibynnol Hollywood am y Rhaglen Nodwedd Dramor Orau* ac *Enillydd Medal Arian y Byd yng Ngŵyl Ffilmiau Ryngwladol Efrog Newydd.*
- *Y Wal* (The Wall). Archwiliad o chwech o waliau mwyaf eiconig y byd yn UDA a Mecsico, Israel a Palestina, Cyprus, Korea, Gogledd Iwerddon a Berlin.
  - Cydgynhyrchiad rhwng Rondo S4C, JTV, TG4 a Cineflix gyda buddsoddiad hefyd yn cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru. Darlledwyd y gyfres hon ar JTV ac SBS yn Ne Korea, gydag amcangyfrif o 2.5 miliwn o wylwyr a gwerthiannau o £200,000.

Mae Gareth Williams yn pwysleisio pwysigrwydd S4C fel partner wrth helpu Rondo i ddatblygu'r partneriaethau hyn:

> *'Mae'r dosbarthwyr hyn a dosbarthwyr eraill yn sicr yn cydnabod S4C fel partner a darlledwr arwyddocaol sydd â'r potensial i greu cydgynyrchiadau a phrosiectau eraill ar gyfer y farchnad ryngwladol.'*

VOX PICTURES

Sector: Cwmni cynhyrchu teledu a ffilm

Lleoliad: Caerdydd

Gweithwyr: 5 amser llawn, gan gynyddu i gyfartaledd o 55 yn ystod cynyrchiadau a thua 10 mewn cwmnïau ôl-gynhyrchu a ddefnyddir gan y cwmni.

Cefndir

Cwmni cynhyrchu teledu a ffilm annibynnol yw Vox Pictures sydd wedi cynhyrchu'r gyfres ddrama a enillodd wobr BAFTA, sef *Un Bore Mercher / Keeping Faith* - cydgynhyrchiad rhwng S4C a BBC Cymru a ffilmiwyd yn Gymraeg ac yn Saesneg ar yr un pryd. Yn ddiweddar, cwblhaodd y cwmni gyfres ddrama chwe rhan (*Fflam)* a ddarlledwyd gyntaf ym mis Chwefror 2021.

Llwyddiant cynyrchiadau cefn wrth gefn

Mae Vox Pictures wedi elwa o ymgyrch S4C i gomisiynu cydgynyrchiadau Cymraeg a Saesneg 'cefn-wrth-gefn' yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Noda'r cwmni na fyddai llwyddiant *Keeping Faith* - y sioe nad oedd ar y rhwydwaith a lawrlwythwyd fwyaf ar BBC iPlayer (dros 9.5 miliwn o lawrlwythiadau) yn 2018 - wedi digwydd oni bai bod S4C wedi comisiynu *Un Bore Mercher*. Mae S4C hefyd wedi cefnogi Vox Pictures i helpu i greu partneriaethau â chwmnïau dosbarthu, sydd wedi galluogi i'w raglenni gael eu darlledu ledled y byd.

Ymatebolrwydd S4C yn ystod y pandemig

Darparodd rowndiau comisiynu cyflym S4C yn ystod 2020 gyfleoedd i gwmnïau cynhyrchu annibynnol ymateb i anghenion newidiol cynulleidfaoedd yn ystod y pandemig. Drwy hyn enillodd Vox Pictures gomisiwn i gynhyrchu *Cyswllt* (Lifelines), cyfres tair rhan sy'n adlewyrchu bywyd yn ystod y cyfnod clo gyda phrif gymeriadau o wahanol oedrannau yn brwydro yn erbyn amrywiaeth o broblemau. Ffilmiwyd y gyfres gan ddefnyddio dim ond gliniaduron a ffonau, gan adlewyrchu'r ffordd y mae cynulleidfaoedd yn cyfathrebu yn ystod y cyfnod clo. Mae'r cynhyrchydd Llyr Morus yn teimlo bod cynulleidfa eang S4C yn creu her unigryw i'r darlledwr, ond ei fod yn gweithio'n agos gyda chwmnïau cynhyrchu i oresgyn hyn.

> *'Mae'n hollbwysig ein bod ni'n adlewyrchu bywyd a chymdeithas Cymru, ac mae S4C yn eich gwthio i wneud hynny. Mae rhwydweithiau eraill yn awyddus i wneud hyn hefyd, ond dydyn nhw ddim bob amser yn llwyddo fel S4C. Mae hefyd wedi*

bod yn eithaf ystwyth yn y ffordd y mae wedi ymateb ers Covid, gan arwain at gyfres fel Cyswllt, sy'n canolbwyntio ar fywyd yn ystod y cyfnod clo, er enghraifft.'

Anghenion sgiliau a gweithio mewn partneriaeth

Noda Vox Pictures fod S4C wedi chwarae rhan bwysig yn y gwaith o ddatblygu llwybrau yn y sector ar gyfer gweithwyr proffesiynol a chwmnïau cynhyrchu, yn enwedig ar gyfer busnesau bach. Noda Llyr Morus fod hyn wedi chwarae rhan yn llwyddiant Cymru o ran denu cynyrchiadau rhwydwaith a rhyngwladol mawr y DU yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

> *'Mae'r safonau proffesiynoldeb a osodir gan S4C yn uchel iawn, ac mae'r ffaith bod cymaint o bobl a ddechreuodd weithio ar S4C wedi mynd ymlaen i gynyrchiadau eraill yn brawf o hynny.'*

Mae'r cwmni'n cydnabod pwysigrwydd deialog barhaus rhwng S4C a'r sector, yn enwedig mewn perthynas ag anghenion sgiliau a phrinder sgiliau sy'n effeithio ar gwmnïau bach yn y sector. Mae llwyddiant Cymru wedi creu heriau wrth recriwtio talent a chriwiau, ond noda Llyr fod S4C yn gweithio'n agos gyda'r sector i helpu cwmnïau cynhyrchu i ymateb i hyn.

> *'Gall hyn [y cynnydd hwn mewn cynyrchiadau sy'n ffilmio yng Nghymru] greu prinder criwiau sy'n golygu bod yn rhaid i ni drafod y bylchau [sgiliau] yn rheolaidd, wrth i dalent symud ymlaen.'*

Mae'r cwmni wedi gweithio gyda chynllun prentisiaeth *Sgil Cymru* ac yn teimlo bod hyn yn cynnig llwybrau pwysig i newydd-ddyfodiaid, gan baratoi'r ffordd ar gyfer cenhedlaeth newydd o weithwyr proffesiynol creadigol yn y sector.

chwarel
independent film & radio
ffilm a radio annibynnol

CHWAREL

Sector: Cwmni cynhyrchu teledu annibynnol

Lleoliad: Criccieth, Gwynedd

Gweithwyr: 10, gyda hyd at 40 o weithwyr llawrydd yn ystod cynyrchiadau

Cefndir

Cwmni cynhyrchu annibynnol yw Chwarel sy'n arbenigo mewn rhaglenni dogfen. Sefydlwyd y cwmni yn 2001 ac mae'n cyflogi 10 o bobl yng Nghriccieth, tref lle mae 64% o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg. Mae hyn yn golygu ei fod yn gyflogwr arwyddocaol mewn tref lle mae busnesau lleol yn cyflogi cyfanswm o 600 o bobl (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2019).

Un o gomisiynau diweddaraf Chwarel ar gyfer S4C yw *Tŷ Am Ddim*, fersiwn Gymraeg o *The Great House Giveaway*, y mae'r cwmni'n ei gynhyrchu ar gyfer Channel 4. Mae'r gyfres hon yn dod â dau ddieithryn ynghyd i brynu tŷ mewn ocsiwn, ac yna'n rhoi cyllideb iddynt adnewyddu a gwerthu'r tŷ chwe mis yn ddiweddarach.

Ennill gwaith mewn marchnad gystadleuol

Mae'r cwmni wedi gweithio ar sawl cynhyrchiad ar gyfer S4C ac mae hefyd wedi sefydlu ei hun gan ennill comisiynau gyda darlledwyr eraill gan gynnwys Channel 4 a BBC Cymru. Disgrifiodd sylfaenydd a pherchennog y cwmni, Sioned Wyn, heriau gweithredu fel busnes bach mewn sector annibynnol hynod gystadleuol yng Nghymru:

> *'Un o'n cryfderau yw ein bod ni'n ystwyth, rydyn ni'n gallu symud yn gyflym iawn. Daw hyn o orfod ymladd am bob comisiwn. Dim ond hyn a hyn o waith sydd ar gael, ac mae hynny wedi ein gwthio i fod yn ystwyth a thorri allan o Gymru hefyd.'*

Llwyfan ar gyfer twf pellach

Mae ennill gwaith gydag S4C wedi helpu Chwarel i greu enw da i'r cwmni, gan ddarparu llwyfan ar gyfer twf a chydnabyddiaeth bellach. Yn ddiweddar, arweiniodd hyn at Channel 4 yn dewis Chwarel fel un o un ar ddeg o gwmnïau cynhyrchu annibynnol yn y DU i elwa o'i chronfa newydd sbon i gwmnïau annibynnol sy'n dod i'r amlwg, sef yr *Emerging Indie Fund*. Nod y gronfa hon yw helpu cwmnïau annibynnol bach, newydd neu rai sy'n dod i'r amlwg y tu allan i Lundain i symud drwy gamau twf allweddol. Mae Sioned Wyn yn disgrifio sut mae gweithio gydag S4C wedi cyfrannu at lwyddiant y cwmni:

> *'Mae'n anodd cael troed yn y drws gyda darlledwr newydd - mae gan bawb y cwmnïau y maen nhw'n troi atynt gan eu bod yn ymddiried ynddyn nhw. Mae ein profiad o weithio gydag S4C wedi bod yn hanfodol i ni gyda darlledwyr eraill.'*

Cydgynyrchiadau dwyieithog 'cefn wrth gefn'

Mae dyfodiad cydgynyrchiadau Cymraeg a Saesneg 'cefn wrth gefn' a anogir gan S4C, yn ddatblygiad diweddar y mae Chwarel yn ystyried ei fod yn fuddiol i'r sector ac i gynulleidfaoedd fel ei gilydd. Mae'r cwmni'n ystyried bod cynyrchiadau dwyieithog yn effeithlon i ddarlledwyr o ran helpu i leihau costau cynhyrchu yn ogystal â gwella ansawdd a helpu i hyrwyddo rhaglenni er mwyn targedu gwahanol gynulleidfaoedd.

Sgiliau a recriwtio: heriau parhaus

Mae cronfa gyfyngedig o weithwyr a phrinder sgiliau, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, yn parhau i fod yn her i gwmnïau fel Chwarel wrth recriwtio. Un o'r heriau parhaus a nodwyd gan Chwarel yw'r angen am gyfleoedd hyfforddi a datblygu proffesiynol o safon sy'n briodol i'r diwydiant. Mae rôl S4C fel partner wrth weithio gyda'r sector i ddatblygu cyfleoedd hyfforddi a datblygu yn cael ei ystyried yn flaenoriaeth bwysig yn y dyfodol i gwmnïau fel Chwarel.

TELESGOP

Sector: Cwmni cynhyrchu amlgyfrwng annibynnol

Lleoliad: Castell-nedd Port Talbot

Gweithwyr: 30

Cefndir

Cwmni cynhyrchu amlgyfrwng yw Telesgop, a sefydlwyd ym 1993, sy'n creu cynnwys ar gyfer teledu, radio, cyfryngau digidol a phrosiectau addysgol. Mae'n cynhyrchu amrywiaeth o gynnwys ar gyfer S4C, gan gynnwys y sioe amaethyddol hirsefydlog *Ffermio* (a ddarlledwyd gyntaf ym 1997, gyda 44 o benodau yn y gyfres bresennol a chyrhaeddiad o 98,000) a'r gyfres ddiweddar o raglenni dogfen ar newid yn yr hinsawdd *Her yr Hinsawdd.* Mae Telesgop hefyd yn cynhyrchu rhaglenni ar gyfer darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill ac amrywiaeth o gynnwys ac adnoddau addysgol i Lywodraeth Cymru.

Cynulleidfa wybodus a'r angen am hygrededd

Mae rhaglenni fel *Ffermio* wedi denu carfan o wylwyr ffyddlon a gwybodus dros nifer o flynyddoedd, sy'n mynnu rhaglenni sy'n addysgiadol a chredadwy. Mae Rheolwr Gyfarwyddwr y cwmni, Dyfrig Davies, yn pwysleisio bod angen staff ar Telesgop sy'n deall cymunedau gwledig ac sy'n gallu cynhyrchu rhaglenni sy'n bodloni disgwyliadau'r gwylwyr:

> *'Mae comisiwn mawr ar gyfer S4C, fel Ffermio, yn rhoi'r sefydlogrwydd i ni gyflogi nifer sylweddol o staff amser llawn. Mae hyn yn helpu i leihau costau cynhyrchu ond mae hefyd yn golygu bod gan y staff yr arbenigedd a'r hygrededd y mae'r gynulleidfa yn eu mynnu.'*

Mae S4C wedi gweithio'n hyblyg gyda Telesgop i ddatblygu cyfresi untro i geisio manteisio ar boblogrwydd rhaglenni sefydledig fel Ffermio.

Effaith ar iaith a diwylliant

Mae tua 80% o weithlu Telesgop yn byw yn ne-orllewin Cymru, ardal sydd â chyfran uchel o siaradwyr Cymraeg. Mae Dyfrig yn tynnu sylw at rôl bwysig comisiynau S4C o ran galluogi'r cwmni i gyflogi staff sy'n cyfrannu'n economaidd at eu hardaloedd lleol, ac sydd hefyd yn chwarae rhan arwyddocaol yn y broses o gynnal bywiogrwydd cymdeithasol a diwylliannol cymunedau Cymraeg eu hiaith.

> *'Mae llawer o'n staff yn byw mewn cymunedau gwledig Cymraeg, ac yn gwneud cyfraniad enfawr at wead cymdeithasol eu hardaloedd drwy fod yn arweinwyr*

cymunedol Clybiau Ffermwyr Ifanc, cynghorau cymuned, corau, aelwydydd. Heb gomisiynau S4C, byddai effaith gymdeithasol ac ieithyddol gorfod chwilio am waith yn rhywle arall yn enfawr.'

Adeiladu arbenigedd i weithio y tu hwnt i Gymru

Mae Telesgop wedi datblygu ei arbenigedd a'i brofiad o gynhyrchu rhaglenni ffeithiol, gan ganolbwyntio'n benodol ar fywyd a lleoliadau gwledig. Mae'r cwmni'n cynhyrchu bwletinau newyddion amaethyddol rheolaidd ar gyfer BBC Cymru, gan ddefnyddio arbenigedd a gwybodaeth y tîm sy'n cynhyrchu Ffermio. Mae'r cwmni hefyd wedi cael llwyddiant yn ddiweddar gyda chomisiynau ar gyfer y One Show ar y BBC a BBC 4, fel y gyfres *Our Lives*.

'Mae gennym gronfa o wybodaeth a phrofiad yn y tîm sydd wedi ein galluogi i ennill gwaith gyda'r BBC. Ni fyddai gennym y fantais gystadleuol honno oni bai am ein gwaith gydag S4C. Mewn rhai achosion, dw i ddim yn siŵr a fydden nhw wedi ein hystyried ni heb y profiad hwnnw.'

Llwyddiant byd-eang

Mae comisiynau ar gyfer S4C hefyd wedi arwain at lwyddiant rhyngwladol; y rhaglen ddogfen *John Denver: Country Boy* a gafodd ei gwerthu'n eang yn yr UD a Chanada, a'r rhaglen ddogfen 'Y Cymro a laddodd Richard III' ('The Man Who Killed Richard III') i S4C a ddosbarthwyd ledled y byd. Mae'r cwmni'n priodoli'r llwyddiannau byd-eang hyn i S4C.

Roedd Telesgop yn teimlo bod S4C wedi helpu i feithrin sector cynhyrchu annibynnol cystadleuol yng Nghymru a bod y sianel yn bartner effeithiol o ran creu cyfleoedd i ddosbarthu cynyrchiadau yn rhyngwladol. Mae'r cwmni'n ystyried hyn yn faes y gellid ei ddatblygu ymhellach, wrth i farchnadoedd rhyngwladol a chyfleoedd ar gyfer cydgynyrchiadau dyfu.

GORILLA

GORILLA

Sector: Tŷ ôl-gynhyrchu gwasanaeth llawn sy'n arbenigo mewn cyfryngau darlledu a ffilm.

Lleoliad: Caerdydd a Chaerfyrddin

Gweithwyr: 60

Cefndir

Gorilla yw cwmni ôl-gynhyrchu mwyaf Cymru. Wedi'i sefydlu ym 1999, mae Gorilla yn meddiannu 5 llawr yn ei bencadlys ym Mae Caerdydd ac mae ganddo gyfleusterau anecs yn y ddinas. Mae Gorilla yn gyfleuster ôl-gynhyrchu llawn, o'r dechrau i'r diwedd sy'n darparu cannoedd o oriau o gynnwys i Ddarlledwyr yng Nghymru, y DU ac yn Rhyngwladol. Mae ganddo gyfleuster o'r radd flaenaf, sy'n cynnwys dros 100 o ystafelloedd golygu Avid, cyfleuster graddio lliw UHD/HDR, ystafelloedd sain, VFX a thîm technegol 24/7 gydag achrediad Netflix a BBC Worldwide. Dechreuodd fel cwmni bach 20 mlynedd yn ôl ac mae bellach wedi tyfu i gyflogi tua 60 aelod o staff.

Yng nghyd-destun Cymru, mae gan y cwmni drefniant gweithio agos gyda Boom Cymru, gan ddarparu ei holl waith ôl-gynhyrchu, y rhan fwyaf ohono ar gyfer rhaglenni a gomisiynwyd gan S4C. Mae Gorilla hefyd yn darparu gwasanaethau i gwmnïau cynhyrchu eraill, gan gynnwys rhaglenni rhwydwaith ar ben uchaf y farchnad. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda Bad Wolf ar *His Dark Materials* a'r gyfres *Discovery of Witches*.

S4C fel hwylusydd buddsoddi mewn seilwaith a datblygiad proffesiynol

Er bod Gorilla yn gweithio gyda llawer o gwmnïau cynhyrchu, mae'r holl waith yn cael ei gyflawni yng Nghymru ac mae'r holl staff wedi'u lleoli yng Nghymru. Mae'r cwmni wedi tyfu ac wedi gallu ymestyn i farchnadoedd newydd, ond disgrifir y gwaith i S4C fel 'conglfaen' y cwmni.

> *'O ran cynllunio busnes, yn aml dydyn ni ddim yn cael ein gweld cymaint gan ein bod yn y maes ôl-gynhyrchu - rydym yn ddibynnol ar eraill. Yr hyn y mae S4C yn ei wneud i'n cwmni (a'r diwydiant ehangach) yw ei fod yn rhoi amlygrwydd i'n gwaith. Rydym yn gwybod y bydd gwaith cyson ar gael i ni y flwyddyn nesaf ac mae hyn yn rhoi hyder a sicrwydd i ni fuddsoddi mewn cyfalaf, datblygu ansawdd a chyflogi pobl yn llawnamser sy'n caniatáu i ni eu hyfforddi a'u huwchsgilio.'*

Dywedodd rheolwr gyfarwyddwr y cwmni fod S4C wedi galluogi Gorilla i gystadlu a chynnig gwerthoedd a gwasanaethau cynhyrchu i gwmnïau allanol sydd o safon fyd-

eang. Yn gyfnewid am hynny, mae'r gwasanaethau o ansawdd uchel hynny yn cael eu bwydo yn ôl i raglenni S4C.

Yn fwy diweddar, mae Gorilla wedi treialu systemau ar gyfer golygu o bell, gan fuddsoddi'n helaeth mewn cyfleusterau storio cyfryngau ar gyfer VFX, sydd wedi bod yn hynod ddefnyddiol yn ystod y pandemig Covid 19. Mae Gorilla yn parhau i ddarparu cyfleoedd i hyfforddeion yn y maes ôl-gynhyrchu, gan ddatblygu ei gapasiti ei hun fel cwmni a chefnogi datblygiad ehangach y gweithlu.

Partneriaethau a chydweithrediadau Gorilla

Mae Rheolwr Gyfarwyddwr Gorilla, Rich Moss, hefyd yn tanlinellu pwysigrwydd S4C o ran cefnogi partneriaethau a chydweithrediadau strategol Gorilla. Mae'r gwaith y mae'r cwmni wedi'i wneud ar gyfer S4C wedi arwain at weithio gydag ystod o bartneriaid.

> *'Buom yn cydweithio ag S4C (ac ar y pryd - BBC Cymru) i greu ac adeiladu ystafell gyfryngau yng Nghanolfan Yr Egin S4C yn Sir Gaerfyrddin. Mae hyn yn darparu mynediad i'r gymuned greadigol yn yr ardal at gyfleusterau llawn o safon darlledu, boed yn gwmnïau cynhyrchu, grwpiau theatr, cleientiaid corfforaethol neu unigolion.'*

Yn ogystal â'u cyfraniadau creadigol at raglenni, mae Gorilla hefyd yn darparu cymorth technegol i ystod o gwmnïau cynhyrchu, gan gynnwys darllediadau byw yn uniongyrchol i ddarlledwyr.

CWMNI DA

Sector: Cwmni cynhyrchu cyfryngau annibynnol

Lleoliad: Gwynedd

Gweithwyr: 53

Cefndir

Mae Cwmni Da, sydd wedi'i leoli yng Nghaernarfon, yn un o gynhyrchwyr mwyaf S4C gyda throsiant blynyddol o oddeutu £5 miliwn. Mae'r cwmni'n darparu gyrfaoedd proffesiynol a hyfforddiant mewn ardal o amddifadedd economaidd, lle mae'r cyflog wythnosol cyfartalog 15% yn is na chyfartaledd y DU. Mae Cwmni Da hefyd yn cynhyrchu rhaglenni ar gyfer y farchnad ryngwladol, gyda chynyrchiadau'n cael eu darlledu yn Asia ac Ewrop. Mae ei gynyrchiadau wedi ennill gwobrau yn Tsieina, Canada, Efrog Newydd a llu o wobrau BAFTA Cymru, Celtic Media a'r Gymdeithas Deledu Frenhinol.

Cyflogwr arwyddocaol a busnes y mae'r gweithwyr yn berchen arno

Mae'r cwmni'n darparu swyddi o ansawdd uchel yng Ngwynedd, awdurdod lleol lle mae dim ond 1% o fusnesau yn cyflogi 50 neu fwy o bobl. Yn ddiweddar daeth y cwmni yn ymddiriedolaeth sy'n eiddo i'r gweithwyr - model perchnogaeth newydd ar gyfer y diwydiant cyfryngau - sy'n anelu at fod o fudd i'w weithwyr, yr economi leol a'r gymuned ehangach. Mae holl staff y cwmni yn byw yng Nghymru, ac mae 90% o wariant y cwmni ar nwyddau a gwasanaethau yn cael ei wario gyda chyflenwyr yng Nghymru. Esbonia'r Cyfarwyddwr Cyllid, Bethan Griffiths, sut mae'r cwmni'n chwarae rhan bwysig yn yr economi leol a'r ardal ehangach:

> *'Gyda chysylltiadau agos â Dulyn a hybiau cyfryngau yn Lerpwl a Manceinion, mae ein cwmni mewn sefyllfa berffaith ar gyfer byd ar ôl Brexit, gan ddarparu sicrwydd swyddi sydd o fudd mawr i'r economi leol. Mae dod yn gwmni sy'n eiddo i'r gweithwyr yn ein galluogi i ddatblygu ymhellach gan wybod ein bod ein tynged yn ein dwylo ni ein hunain.'*

Cydgynyrchiadau a chynyrchiadau dwyieithog 'cefn wrth gefn'

Ar hyn o bryd, Cwmni Da yw prif gynhyrchydd y cydgynhyrchiad o'r gyfres ffeithiol rhyngwladol gwerth £630,000, *Rain the Untold Story,* gyda phartneriaid ym Mhrydain,

Iwerddon a Tsieina. Mae hyn yn dilyn cydgynhyrchiad tebyg gyda'r un partneriaid, *Tide*, a gafodd ei werthu ledled y byd hefyd.

Mae'r cwmni wedi creu cynnwys ar gyfer S4C a darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill yn y DU. Mae enghreifftiau o gynyrchiadau a ddarlledwyd 'gefn wrth gefn' yn Gymraeg ar S4C ac yn Saesneg ar BBC4 yn cynnwys: *The Toilet: An Unspoken History / Tai Bach y Byd* a *Pagans & Pilgrims: Britain's Holiest Places*.

Ymysg y cydgynyrchiadau eraill sy'n gysylltiedig ag S4C mae *Codi Wal* (Sky), rhaglen ddogfen sy'n dramateiddio'r noson y cafodd Wal Berlin ei hadeiladu, a *Rhyfel Mawr Trwy Lygaid Ifanc* (gyda'r cynhyrchwyr blaenllaw o'r Almaen Looks Film a oedd yn bartneriaeth ar draws Ewrop). Rhaglen ddogfen-ddrama oedd hon yn seiliedig ar brofiadau plant ledled Ewrop yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Disgrifia'r Rheolwr Gyfarwyddwr Llion Iwan bwysigrwydd y partneriaethau hyn i'r cwmni:

> *'Wrth i gyllidebau gael eu gwasgu, mae dod o hyd i bartneriaid rhyngwladol a gweithio gyda nhw, fel cyllidwyr a chynhyrchwyr, yn dod yn fwyfwy pwysig. Mae'n darparu profiad amhrisiadwy yn y meysydd cynhyrchu, cyfreithiol a materion busnes ac yn adeiladu pontydd ar gyfer partneriaethau cryf yn y dyfodol.'*

Dosbarthu'n rhyngwladol

Mae Cwmni Da wedi gweithio mewn partneriaeth ag S4C i sicrhau bod ffilmiau Cymraeg ar gael ar Amazon Prime Video ledled y byd am y tro cyntaf. Yn ddiweddar, cafodd dwy ffilm a gynhyrchwyd o dan y faner *S4C Originals*, sef *47 Copa* ac *Ar Gefn y Ddraig*, eu hychwanegu at y platfform byd-eang yn ddiweddar fel rhan o ymgyrch S4C i arddangos cynnwys gwreiddiol o Gymru yn rhyngwladol. Disgrifia'r Rheolwr Gyfarwyddwr Llion Iwan arwyddocâd hyn i'r cwmni:

> *'Mae cydgynyrchiadau rhyngwladol yn darparu cyfleoedd i'n staff ddatblygu eu sgiliau, i ymwneud â'r farchnad fyd-eang, sy'n arfer busnes cadarn i'r cwmni ac sy'n ein galluogi i wella ein gwerthoedd cynhyrchu.'*

DARLUN TV

Sector: Cwmni cynhyrchu teledu annibynnol

Lleoliad: Gwynedd

Gweithwyr: 3, yn codi i gymaint â 40 o weithwyr llawrydd yn ystod cynyrchiadau

Cefndir

Sefydlwyd Darlun TV, sydd wedi'i leoli yng Nghaernarfon, yn 2014 ac mae wedi tyfu'n gyflym, yn bennaf drwy gomisiynau S4C, gan ddod yn un o'r cynhyrchwyr teledu annibynnol sy'n tyfu gyflymaf yng Nghymru. Mae Darlun TV yn arbenigo mewn rhaglenni ffeithiol ac adloniant. Ymhlith y comisiynau diweddar ar gyfer S4C mae *Gwesty Aduniad* , *Helo Syrjeri* ac *Ysgol Ni: Maesincla,* cyfres yn seiliedig ar ysgol gynradd yng Nghaernarfon a enillodd wobr BAFTA Cymru yn ddiweddar am y Gyfres Ffeithiol Orau.

Pwysigrwydd S4C i fusnesau newydd

Mae ennill comisiynau gydag S4C wedi galluogi Darlun TV i dyfu'n gyflym a sefydlu platfform ar gyfer twf, gan ddarparu cyfleoedd cyflogaeth mewn ardal o amddifadedd economaidd-gymdeithasol. Mae'r Rheolwr Gyfarwyddwr Arwyn Evans yn disgrifio sut y mae S4C wedi cael effaith gadarnhaol sylweddol ar y cwmni:

> *'Fel cwmni cymharol newydd, mae S4C wedi bod yn gefnogol iawn o ran ein helpu i dyfu fel cwmni yn ogystal â thyfu'n greadigol. Mae'n hygyrch iawn, yn ymatebol, ac yn barod i drafod. Mae hefyd yn gwneud penderfyniadau yn gyflymach na darlledwyr eraill, ond heb gyfaddawdu ar ansawdd na'r broses greadigol.'*

Adlewyrchu cynulleidfa S4C

Mae cynyrchiadau teledu Darlun yn aml yn canolbwyntio ar bortreadu agweddau ar y gymuned yng ngogledd-orllewin Cymru, rhan greiddiol o gynulleidfa S4C. Roedd ei gyfres *Ysgol Ni: Maesincla*, a enillodd wobr BAFTA, yn darlunio ysgol gynradd yng Nghaernarfon, tref ag un o'r crynodiadau uchaf o siaradwyr Cymraeg lle y mae 85% o'r boblogaeth yn gallu siarad yr iaith. Yn y gyfres proffiliwyd disgyblion gartref ac yn yr ysgol, gan ailymweld â'r ysgol i gofnodi ei phrofiadau yn ystod y cyfnod clo a phan ail-agorodd yn 2020.

'Mae adlewyrchu ein hardal leol yn bwysig i ni, yn enwedig yn ystod cyfnod mor heriol. Mae'n ardal lle ceir problemau economaidd, felly mae gallu darparu cyfleoedd cyflogaeth yma yn bwysig iawn.'

Ehangu gorwelion

Mae gwaith Darlun TV ar gyfer S4C wedi galluogi'r cwmni i greu enw da a sicrhau llwyddiant mewn mannau eraill. Yn ogystal ag S4C, mae Darlun yn gweithio gyda darlledwyr eraill yn y DU yn ogystal â dosbarthwyr rhyngwladol gan gynnwys SONY TV, All3Media ac Orange Smarty. Mae llwyddiant y cwmni wedi golygu bod un o raglenni dogfen y cwmni *Hen Blant Bach*, wedi ennill medal arian yng Ngŵyl Ffilmiau Efrog Newydd (yn y categori Portreadau Cymunedol) yn ogystal â gwobr yn yr Ŵyl Cyfryngau Celtaidd. Roedd *Hen Blant Bach* yn dangos plant oedran meithrin yn rhannu eu gofal dydd gyda phobl hŷn mewn canolfannau gofal yng Nghymru. Ystyriwyd bod y gyfres yn arloesol, gan ymchwilio i'r potensial ar gyfer darparu gofal sy'n pontio'r cenedlaethau mewn cymdeithas.

Effaith economaidd leol a phartneriaethau cymdeithasol

Mae'r cwmni'n rhoi pwys mawr ar weithio gyda busnesau lleol, cyrff cyhoeddus ac elusennau. Ar gyfartaledd, mae 90% o'i gyllidebau cynhyrchu yn cael eu gwario'n lleol yng ngogledd-orllewin Cymru, ardal o amddifadedd economaidd-gymdeithasol. Fel rhan o *Gwesty Aduniad*, cyfres sy'n dod â phobl ynghyd sydd wedi colli cysylltiad neu sydd am gysylltu â'i gilydd am y tro cyntaf, gweithiodd Darlun TV yn agos â PAC-UK - Asiantaeth Cymorth Mabwysiadu annibynnol fwyaf y DU. Wrth ddatblygu *Hen Blant Bach,* gweithiodd Darlun TV yn agos gyda Phrifysgol Bangor gerllaw i gyd-greu rôl ymchwil ôl-ddoethuriaeth yn ymchwilio i effaith gofal sy'n pontio'r cenedlaethau mewn cymdeithas. Arweiniodd hefyd at yr awdurdod lleol yn cyflogi swyddog pontio'r cenedlaethau. Mae Arwyn Evans yn pwysleisio pwysigrwydd y partneriaethau economaidd a chymdeithasol hyn i'w gwaith:

'Mae ein partneriaethau â chyrff cyhoeddus, cwmnïau preifat ac elusennau yn bwysig iawn i ni.'

WHISPER CYMRU

Sector: Cwmni cynhyrchu cyfryngau annibynnol

Lleoliad: Caerfyrddin a Chaerdydd

Gweithwyr: 10

Cefndir

Cwmni cynhyrchu a chanddo swyddfa yn Yr Egin yng Nghaerfyrddin, lle mae S4C yn denant angor, yw Whisper Cymru. Mae'r cwmni, sy'n rhan o The Whisper Group (rhan o Sony Pictures Television), yn arbenigo mewn rhaglenni chwaraeon ac adloniant ac yn ddiweddar unodd â Lens 360, cwmni newydd o Sir Gaerfyrddin a sefydlwyd gan Carys Owens yn 2016.

Fel Rheolwr Gyfarwyddwr Whisper Cymru, mae Carys yn gweld cyfleoedd i adeiladu ar y llwyddiant cydweithredol a gafodd y ddau gwmni wrth gydgynhyrchu Cwpan Rygbi'r Byd ar gyfer S4C, Rygbi Menywod a *Dyddiau Da Cwpan Rygbi'r Byd (Rugby World Cup catch-up):*

> *'Rydyn ni'n teimlo'n gyffrous iawn am ein perthynas â Whisper yn y dyfodol a'r cyfleoedd y bydd hyn yn eu cynnig i Sir Gaerfyrddin a Chymru.'*

Dywedodd Jamie McIntosh, Cynhyrchydd Llinell, Whisper Cymru:

> "*Mae S4C yn ganolog i ddarlledu yng Nghymru ac roedd cynhyrchu'r rhaglen Cwpan Rygbi'r Byd ar gyfer y sianel yn 2019 yn anrhydedd fawr. Mae'n gleient pwysig i Whisper Cymru yn ogystal â The Whisper Group ac rydym yn edrych ymlaen at barhau i ddatblygu ein perthynas â'r sianel drwy gydol 2021 a thu hwnt.'*

Lefelu: denu swyddi a thwf i orllewin Cymru

Mae Whisper Cymru yn cyflogi dau aelod o staff yn Yr Egin, lle roedd Lens 360 wedi'i leoli o'r blaen, gydag wyth aelod o staff ychwanegol wedi'u lleoli yn swyddfa Caerdydd a ehangwyd yn ddiweddar gan y cwmni. Mae Carys Owens yn gobeithio y bydd yr uno yn galluogi'r cwmni i ehangu ymhellach a denu mwy o staff i weithio yn Sir Gaerfyrddin a helpu i gadw pobl ifanc yn yr ardal:

> *'Rydyn ni'n gobeithio tyfu yn 2021 a chynnig cyfleoedd i staff newydd, yn enwedig y rhai dan 23 oed, weithio yn ein swyddfa yng Nghaerfyrddin.'*

Yn ogystal â bod o fudd i'r economi leol, mae Carys yn credu bod manteision i'r cwmni a'i staff yn sgil y ffaith eu bod wedi'u lleoli yng ngorllewin Cymru:

'Er bod swyddfa Caerdydd yn dal i fod yn atyniad i bobl, rydym wedi gweld cynnydd mawr mewn cyfleoedd yn sgil comisiynu, yn ogystal ag arbed costau i staff, i'r rhai sydd â'r opsiwn i leoli eu hunain yng Nghaerfyrddin.'

Covid-19 a'i effaith ar ddarllediadau chwaraeon

Mae gweithio gyda S4C wedi cael effaith gadarnhaol ar drosiant Whisper Cymru a chyfleoedd i gydweithio. Er bod effaith Covid-19 ar ddarllediadau chwaraeon wedi creu heriau sylweddol i'r sector, mae Carys Owens yn parhau i fod yn ffyddiog ynghylch cyfleoedd yn y dyfodol ar ôl y pandemig:

'Yn ystod y pandemig, gwelsom gwymp mewn cynyrchiadau chwaraeon gydag S4C, a chafodd hynny effaith ar y busnes. Fodd bynnag, mae chwaraeon yn dychwelyd ac rydym wedi bod yn brysur iawn yn ystod y misoedd diwethaf. Rydym yn targedu twf ac yn obeithiol y bydd cyfleoedd yn codi i gynnig swyddi ychwanegol yng Nghymru a Chaerfyrddin. '